Rhif ymchwil gymdeithasol: 121/2025

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2025

# Gwerthusiad o’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025: Adroddiad Terfynol

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-742-2

**Gwerthusiad o’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025: Adroddiad terfynol**

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron: Endaf Griffiths, Dr. Lowri Cunnington-Wynn, Anna Burgess, Emily Hacker a Tomasz Jablonski.

Gyda chydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a'r arweiniad ar y dull gwerthuso realaidd a roddwyd i'r tîm ymchwil gan Dr Kev Harris.

Yr adroddiad ymchwil llawn: Griffiths, E., Cunnington-Wynn, L., Burgess, A., Hacker, E. a Jablonski, T., 2025. Gwerthusiad o’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 121/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthuso-lleoedd-lleol-ar-gyfer-natur-2020-i-2025-adroddiad-terfynol

Safbwyntiau’r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Hinsawdd a'r Amgylchedd

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilHinsawddAcAmgylchedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr Tablau ........................................ 3

Rhestr Ffigurau ........................................ 3

Geirfa............... ........................................ 4

1. Cyflwyniad a chefndir ........................................ 6

1.1 Trosolwg o'r rhaglen a'r cynlluniau ........................................ 7

1.2 Prif ganfyddiadau'r adroddiad interim ........................................ 8

1.3 Yr adroddiad hwn ........................................ 9

1.4 Cyllid ac allbynnau allweddol y rhaglen ........................................ 9

2. Methodoleg ........................................ 12

2.1 Trosolwg........................................ 12

2.2 Dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad terfynol ........................................ 13

2.2.1 Arolwg o gyfranogwyr prosiectau........................................ 13

2.2.2 Ymweliadau safle a chyfweliadau........................................ 15

2.2.3 Adolygiad llenyddiaeth........................................ 17

2.2.4 Dadansoddi a dehongli........................................ 17

3. Y prif ganfyddiadau: Canlyniadau prosiect LPfN, sut maent yn cael eu cyflawni a pham ........................................ 19

3.1 Rhan 1: Beth oedd canlyniadau personol a chymunedol prosiectau LPfN? ............ 19

Newidiadau mewn safbwyntiau ac agweddau ........................................ 20

Newid ymddygiad ........................................ 23

Nodi canlyniadau personol a chymunedol ehangach........................................ 25

Canlyniadau ar gyfer cymunedau amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ........................................ 28

3.2 Rhan 2: Mecanweithiau: Sut mae prosiectau LPfN wedi cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a nodwyd, a pham? ........................................ 30

Deall cymhellion cyfranogwyr a darparu'r cyfleoedd cywir........................................ 30

Ymgysylltu â'r cyfranogwyr 'cywir' a chaniatáu i brosiectau ddatblygu.......................... 32

Dull hyblyg, wedi'i deilwra ........................................ 35

Cymysgedd o weithgareddau a galluogi cyfranogwyr i symud ymlaen ......................... 36

Capasiti a chyd-destun lleol ........................................ 37

Amserlenni a chynnal safleoedd, gweithgareddau a chanlyniadau............................... 39

3.3 Rhan 3: Goblygiadau o safbwynt rheoli polisi a rhaglenni ........................................ 42

4. Casgliad ........................................ 44

Canlyniadau a nodwyd ar gyfer prosiectau LPfN .......... 44
Mecanweithiau a chyd-destun ar gyfer cyflawni'r canlyniadau .......... 45
Goblygiadau .......... 46
Myfyrdodau terfynol .......... 46
5. Argymhellion .......... 47
Atodiad A: Cyflwyniad manylach i gynlluniau LPfN .......... 50
Cynllun Partneriaethau Natur Lleol .......... 52
Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol .......... 53
Cronfa Grantiau Cyfalaf .......... 53
Y Cynllun Chwalu Rhwystrau .......... 53
Cynllun Pecynnau Cymunedol .......... 54
Atodiad B: Rhagor o fanylion am y dull Gwerthusiad Realaidd .......... 56
Pwysigrwydd cyd-destun .......... 56
Datganiadau esboniadol: .......... 57
Atodiad C: Datganiadau esboniadol: .......... 58
Deall cymhellion cyfranogwyr a darparu'r cyfleoedd cywir .......... 58
Ymgysylltu â'r cyfranogwyr 'cywir' a chaniatáu i brosiectau ddatblygu .......... 58
Dull hyblyg, wedi'i deilwra .......... 60
Cymysgedd o weithgareddau a galluogi cyfranogwyr i symud ymlaen .......... 62
Capasiti a chyd-destun lleol .......... 63
Amserlenni a chynnal safleoedd, gweithgareddau a chanlyniadau .......... 64

# Rhestr Tablau

Tabl 1.1: Gwariant y cynllun LPfN (cyllid Llywodraeth Cymru) fesul blwyddyn ariannol.......10
Tabl 2.1: Rôl ymatebwyr yr arolwg mewn prosiect LPfN.....................................................14
Tabl 2.2: Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul cynllun LPfN ..................................................14
Tabl 2.3: Dosbarthiad y prosiectau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad LPfN........16
Tabl 3.1: Ymateb i'r cwestiwn: Pa effeithiau ydych chi wedi sylwi arnynt mewn cymunedau, os o gwbl, o ganlyniad i'ch prosiect? Wedi'i ddewis o'r opsiynau a ddarparwyd. ....20
Tabl 3.2: Ymateb i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Mae mannau gwyrdd a naturiol lleol yn... ...........................22
Tabl 3.3: Ymateb i'r cwestiwn: Beth sy'n eich cymell i wirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys mannau gwyrdd a naturiol? Yr opsiynau a ddarparwyd a'r ymatebion a ganiatawyd.........................................................................................31

# Rhestr Ffigurau

Ffigur AA.1: Strwythur rhaglen LPfN ..........................................................................51

# Geirfa

**Cadwch Gymru'n Daclus (KWT)**

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn elusen amgylcheddol sydd wedi ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol ledled Cymru. Cenhadaeth yr elusen yw creu Cymru lanach, wyrddach a mwy cynaliadwy ar gyfer y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n darparu'r Cynllun Pecynnau Cymunedol, sy'n rhan o'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN).

**Partneriaethau Natur Lleol (LNP)**

Mae Partneriaethau Natur Lleol yn grwpiau cydweithredol lle mae awdurdodau lleol, sefydliadau lleol ac aelodau o'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu a gwella natur yn eu hardaloedd lleol. Eu prif nod yw gwneud natur yn fwy hygyrch ac yn fwy gwerthfawr i bawb, yn enwedig mewn mannau lle mae mynediad at fannau gwyrdd yn gyfyngedig. Mae Partneriaethau Natur Lleol yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys plannu blodau gwyllt, creu gerddi cymunedol, gwella parciau, ac annog bioamrywiaeth. Mae Partneriaethau Natur Lleol yn cael cyllid gan y rhaglen LPfN i gyflogi Cydlynydd ac i roi prosiectau ar waith. Maent hefyd yn dod o hyd i ragor o gyllid o ffynonellau eraill i gefnogi eu gweithgareddau.

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN)**

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) yw'r rhaglen sy'n cael ei gwerthuso yn yr adroddiad hwn. Mae'n ceisio cefnogi cymunedau i greu 'natur ar garreg eu drws' ac mae'n cael ei darparu ar amrywiaeth o lefelau o awdurdodau lleol i gymunedau lleol, fel y trafodir yn yr adroddiad hwn.

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ('y Gronfa Dreftadaeth')**

Cronfa Dreftadaeth y Loteri yw cyllidwr treftadaeth mwyaf y DU, ac mae'n cefnogi prosiectau sy'n helpu pobl i archwilio, gwarchod a dathlu treftadaeth amrywiol y wlad. Roedd y mudiad yn rheoli Cronfa Grantiau Cyfalaf LPfN a'r cynllun Chwalu Rhwystrau yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu yn yr adroddiad hwn.

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur**

Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw'r cynllun gweithredu a'r strategaeth bioamrywiaeth swyddogol ar gyfer Cymru, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adeiladu amgylchedd naturiol mwy cadarn.

**Un Llais Cymru**

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae'n rhoi llais unedig i dros 730 o gynghorau lleol, gan eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol, atebol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'n cyflogi Cydlynydd LPfN i gefnogi ceisiadau gan gymunedau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.

**Gwerthusiad Realaidd**

Mae gwerthusiad realaidd yn gofyn tri chwestiwn allweddol am raglenni neu ymyriadau: Beth sy’n gweithio? I bwy? Ym mha amgylchiadau? Yn hytrach na dim ond gofyn "a yw'n gweithio?", mae gwerthusiad realaidd yn cydnabod bod rhaglenni'n gweithio'n wahanol i wahanol bobl mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n canolbwyntio ar ddeall y mecanweithiau sylfaenol (sut a pham mae rhywbeth yn gweithio) a'r cyd-destunau sy'n ysgogi neu'n rhwystro'r mecanweithiau hynny.

Y fformiwla graidd yw Cyd-destun + Mecanwaith = Canlyniad (CMO).

Er enghraifft, gallai rhaglen i gefnogi unigolion i gael gwaith (y canlyniad) drwy ddarparu hyfforddiant sy'n magu eu hyder (mecanwaith), weithio'n dda i bobl frwdfrydig, pobl sydd wedi dod yn ddi-waith yn ddiweddar (cyd-destun: cymhelliant uchel, colli swydd yn ddiweddar) ond gallai fethu ar gyfer unigolion sy’n ddi-waith yn y tymor hir (cyd-destun gwahanol: diymadferthedd dysgwyr, nifer o rwystrau).

Mewn gwerthusiad realaidd, mae datganiadau “os–yna–oherwydd” yn nodi sut y disgwylir i raglen gyflawni ei chanlyniadau. Maent yn disgrifio'r amodau y mae angen eu sefydlu, y canlyniadau a ddylai ddilyn, a'r rhesymau pam mae'r canlyniadau hynny'n digwydd. Mae'r dull hwn yn troi uchelgeisiau eang yn syniadau penodol y mae modd eu profi am yr hyn sy'n gweithio, i bwy, a pham, gan helpu i egluro pam y gallai rhaglen lwyddo mewn rhai lleoliadau ond nid mewn lleoliadau eraill.

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)**

CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru, ac mae’n gweithio i gryfhau'r sector gwirfoddol a’i helpu i wneud mwy o wahaniaeth gyda’i gilydd. Mae'n cefnogi elusennau, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr ledled Cymru. Mae CGGC yn rheoli cynlluniau Partneriaethau Natur Lleol ac Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol sy'n rhan o'r rhaglen LPfN.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Nod rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) Llywodraeth Cymru yw cefnogi cymunedau i greu ‘natur ar garreg eu drws’, ac mae’n cael ei darparu ar wahanol lefelau, o ardaloedd awdurdodau lleol i gymunedau unigol. Cafodd y rhaglen ei datblygu i ddechrau i dargedu ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig at natur, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig. Mae'r cylch gwaith hwn wedi ehangu dros amser i gynnwys gwella a chreu mannau gwyrdd, lle bo hynny'n hygyrch, mewn rhannau eraill o Gymru.

Ym mis Chwefror 2024, comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r gwaith o gyflawni'r rhaglen LPfN hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. Dyma’r adroddiad terfynol ar gyfer gwerthuso’r rhaglen. Mae’r adroddiad terfynol hwn yn dilyn adroddiad gwerthuso interim a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 (Griffiths a Cunnington-Wynn, 2025) a dau werthusiad blaenorol o’r rhaglen, a gyhoeddwyd yn 2021 a 2023 (Powel, Burgess a Parkinson, 2021; Johnson a Vousden, 2023).

Mae'r gwerthusiad hwn yn adeiladu ar dystiolaeth bresennol am berfformiad a chanlyniadau'r rhaglen LPfN. Mae gwerthusiadau blaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar reoli a chyflawni’r rhaglen. Roedd eu gallu i asesu canlyniadau wedi'i gyfyngu gan amseriad yr ymchwil, gyda llawer o brosiectau'n dal i gael eu cyflawni, a chyfyngiadau a osodwyd gan bandemig COVID-19 a oedd yn cynnwys oedi yng ngweithgareddau unrhyw brosiect a chyfyngiadau o ran mynediad i'r safle ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr.

I'r gwrthwyneb, mae'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio ar nodi ac archwilio effeithiau LPfN mewn ffyrdd nad oedd yn bosibl o'r blaen. Yn benodol, mae'n archwilio'r canlynol:

- Effeithiau cymdeithasol prosiectau LPfN ar lefel grŵp cymunedol a'r gymuned ehangach
- I ba raddau mae LPfN wedi bod yn fecanwaith i annog cymunedau, unigolion a sefydliadau i weithredu i gefnogi a gwerthfawrogi natur
- A yw cefnogaeth LPfN wedi dylanwadu ar ymddygiad ac agweddau at natur ymysg y rhai sy'n cymryd rhan, a sut.

Mae'r ffocws wedi bod ar ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o gyfraniad y rhaglen at ganlyniadau cymdeithasol, gan ategu gwaith cynharach a chynnig gwybodaeth i lywio polisi a darpariaeth yn y dyfodol.

Dylid nodi nad yw'r gwerthusiad hwn wedi ystyried effaith y rhaglen ar fioamrywiaeth a darparu gwasanaethau ecosystem sy'n destun astudiaeth ar wahân a fydd yn cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

## 1.1 Trosolwg o'r rhaglen a'r cynlluniau

Ers lansio rhaglen Lleoedd Lleol i Natur (LPfN) yn 2020, mae wedi canolbwyntio ar greu lleoedd sy'n cefnogi natur mewn cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac o gwmpas trefi. Mae'r rhaglen yn hyblyg o ran y gweithgareddau mae'n eu cefnogi gan hyrwyddo dull gweithredu 'dan arweiniad y gymuned'.

Mae LPfN yn rhaglen eang sy'n cael ei darparu drwy'r pum cynllun ar wahân canlynol:

1) Cynllun Partneriaethau Natur Lleol, a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae'r cynllun hwn yn cefnogi LNP ym mhob awdurdod lleol ac awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru i adeiladu rhwydwaith a fydd yn cynnwys pobl a chymunedau, busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn camau gweithredu ymarferol a chynlluniau strategol ar gyfer Cymru iach, gydnerth a chyforiog o natur. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer staff arbenigol, datblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwaith cyfalaf yn yr ardal a mynediad at y Gronfa Her sy'n cefnogi camau cydweithredol.

2) Y Cynllun Pecynnau Cymunedol, a reolir gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r cynllun hwn yn darparu amrywiaeth o becynnau y talwyd amdanynt ymlaen llaw i grwpiau cymunedol gyflawni prosiectau, gan gynnwys tyfu bwyd yn y gymuned. Mae'r pecynnau'n cynnwys planhigion brodorol, offer ac adnoddau eraill. Mae swyddogion prosiect hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddylunio prosiectau a gosod pecynnau.

3) Y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, sydd hefyd yn cael ei reoli gan CGGC gyda'r cyllid yn cael ei ddosbarthu drwy'r LNP perthnasol. Nod y cynllun hwn yw meithrin gallu rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol drwy ddod â phartneriaid at ei gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, adfer cynefinoedd naturiol, a chryfhau rhwydweithiau lleol ar gyfer gweithredu cynaliadwy. Roedd y prosiectau a oedd yn cael eu cefnogi drwy gyfnod cychwynnol y contract wedi cwblhau eu gwaith ym mis Mawrth 2025.

4) Roedd Cronfa Grantiau Cyfalaf LPfN yn darparu cyllid i alluogi cymunedau i adfer a gwella natur yng Nghymru ac roedd yn cael ei rheoli gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (a elwir o hyn ymlaen yn 'Gronfa Dreftadaeth'). Roedd y cynllun wedi cau i geisiadau ym mis Gorffennaf 2024 ac nid oedd ffenestri ymgeisio gweithredol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ym mis Awst 2025.

5) Roedd y Cynllun Chwalu Rhwystrau, a oedd hefyd yn cael ei reoli gan y Gronfa Dreftadaeth, yn darparu cyllid refeniw i chwalu'r rhwystrau a oedd yn wynebu cymunedau dan anfantais ac wedi'u heithrio yng Nghymru wrth gael mynediad at natur.[1] Caeodd y cynllun ar gyfer ceisiadau ym mis Mawrth 2023 heb ffenestri ymgeisio gweithredol adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

[1]: Dyma'r geiriau a ddefnyddir gan y Gronfa Dreftadaeth i ddisgrifio'r gronfa. Gweler Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae rhagor o fanylion am y cynlluniau hyn ar gael yn Atodiad A. Mae cyllid refeniw rhesymol hefyd yn cael ei ddarparu i Un Llais Cymru i gyflogi Cydlynydd LPfN i gefnogi ceisiadau gan gymunedau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.

Ac eithrio costau rheoli mewnol Llywodraeth Cymru, roedd cyfanswm gwerth y rhaglen rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025 (pum mlynedd ariannol) ychydig dros £66m, gyda'r Cynllun LNP yn cynrychioli 73% o'r swm hwnnw (trowch at adran 1.4).

## 1.2 Prif ganfyddiadau'r adroddiad interim

Fel y nodwyd uchod, mae'r adroddiad terfynol hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad gwerthuso interim. Roedd yr adroddiad interim yn cynnwys Damcaniaeth Newid a ddatblygwyd ar gyfer y rhaglen. Y ddamcaniaeth sy'n sail i LPfN yw y dylai creu mannau naturiol/gwyrdd arwain at fwy o gefnogaeth unigol a chymunedol i fyd natur. Drwy roi cyfleoedd i bobl ymgysylltu â byd natur, byddan nhw'n fwy tebygol o werthfawrogi natur a chefnogi ymdrechion i'w ddiogelu a'i adfer.

Daeth yr adroddiad interim i'r casgliad bod y ddamcaniaeth sy'n sail i'r rhaglen LPfN yn seiliedig ar sylfaen dda, yn gadarn ac yn cael ei chefnogi'n eang gan ymchwil academaidd. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ddamcaniaeth newid, nodwyd rhwystrau posibl i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys hygyrchedd safleoedd a chyfyngiadau cyllido, fel cydbwyso cyllid cyfalaf ar gyfer gwaith gyda chyllid refeniw i gyflogi staff a chefnogi gweithgareddau cymunedol. Nodwyd bod grwpiau cymunedol (ac unigolion allweddol yn y grwpiau hynny) yn hollbwysig; nodwyd bod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yn y ddamcaniaeth newid yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

Nododd yr adroddiad fod llawer iawn o weithgarwch wedi digwydd ar draws y cynlluniau LPfN, gyda gwirfoddolwyr yn rhan amlwg o'r gwaith o gyflawni prosiectau. Roedd y data a oedd ar gael—yn bennaf o astudiaethau achos, adroddiadau prosiectau, ac adborth gan gyfranogwyr—yn awgrymu amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ar lefel leol. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o ymgysylltu cymunedol â natur, gwell mannau gwyrdd, a gwell cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a rhyngweithio cymdeithasol. Roedd rhai prosiectau hefyd yn sôn am fanteision canfyddedig i lesiant a bioamrywiaeth leol, er nad oedd y rhain yn cael eu mesur yn systematig. Roedd yr adroddiad interim hefyd yn nodi nifer o ffactorau allweddol sy'n gyffredin i brosiectau a ystyriwyd yn 'llwyddiannus' yn y cynllun Pecynnau Cymunedol yn benodol. Roedd y ffactorau hynny'n cynnwys:

- Ymgysylltu cryf â'r gymuned ac ymdeimlad o berchnogaeth dros y prosiect a/neu'r safle lle'r oedd y gweithgaredd yn cael ei chynnal ymysg cyfranogwyr.
- Cydweithredu effeithiol a chynnwys nifer o randdeiliaid er mwyn gallu defnyddio amrywiaeth o sgiliau a galluoedd a bod yn llai dibynnol ar un sefydliad a/neu ychydig o unigolion allweddol.
- Cymorth wedi'i deilwra gan gydlynydd cynllun, gan gynnwys, er enghraifft, gallu bod yn fwy ymarferol gyda rhai prosiectau lle bo angen.

Nodwyd bod newidiadau i staff allweddol y prosiect, fel athrawon neu arweinwyr cymunedol, yn effeithio'n negyddol ar brosiectau. Roedd diflastod ymhlith gwirfoddolwyr hefyd yn effeithio ar ymgysylltu, yn enwedig pan oedd diffyg cefnogaeth tymor hir.

Ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd, canfu'r adroddiad interim fod cyllid a phrosiectau wedi'u dosbarthu'n anghyson ledled Cymru. Er enghraifft, nid oedd rhai ardaloedd arfordirol yn cymryd rhan yn y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, ac roedd cyllid cyfalaf o'r Gronfa Dreftadaeth wedi'i grynhoi mewn rhannau penodol o'r wlad. Efallai fod natur seiliedig ar alw'r cynlluniau wedi cyfrannu at y dosbarthiad anghyson hwn.

Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a adolygwyd yn yr adroddiad interim yn gyfyngedig o ran cadernid, gan ei bod yn anecdotaidd i raddau helaeth, yn seiliedig ar astudiaethau achos, ac yn hunangofnodedig. Roedd llawer o'r data hefyd yn benodol i brosiectau unigol, gan gyfyngu ar ba mor ddefnyddiol ydyw ar gyfer asesu perfformiad y rhaglen gyfan. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl penderfynu'n bendant a oedd y canlyniadau yn y ddamcaniaeth newid yn cael eu cyflawni.

## 1.3 Yr adroddiad hwn

Roedd cam olaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ymgysylltu ymhellach â phrosiectau sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau LPfN i gasglu tystiolaeth fwy cyson ac annibynnol o'r canlyniadau a gafodd eu cyflawni. Fel y cyflwynir ymhellach yn yr adran ganlynol, defnyddiwyd dull gwerthuso realaidd ar gyfer y cam olaf hwn. Yn hytrach na gofyn "a yw'n gweithio?" yn unig, mae dull realaidd yn gofyn tri chwestiwn allweddol am raglen: Beth sy'n gweithio? I bwy? Ym mha amgylchiadau? Roedd yn canolbwyntio ar ddeall y mecanweithiau sylfaenol (sut a pham mae rhywbeth yn gweithio) a'r cyd-destunau sy'n ysgogi neu'n rhwystro'r mecanweithiau hynny.

Dyma strwythur gweddill yr adroddiad:

- Mae Adran 2 yn nodi'r fethodoleg ar gyfer cam olaf y gwerthusiad
- Mae Adran 3 yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad o ran y canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiectau LPfN, ac mae'n archwilio sut cafodd y canlyniadau hyn eu cynhyrchu ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau dan sylw, a pham
- Yna, mae Adran 4 yn nodi'r casgliadau cyn i Adran 5 nodi argymhellion y gwerthusiad.

Darperir gwybodaeth ychwanegol yn atodiadau'r adroddiad gan gynnwys y cyflwyniad ychwanegol i gynlluniau LPfN a rhagor o fanylion am y dull realaidd sydd wedi bod yn rhan ganolog o'r cam olaf hwn o'r gwerthusiad.

## 1.4 Cyllid ac allbynnau allweddol y rhaglen

Fel y soniwyd uchod, mae ystadegau am y cyllid a ddarparwyd i'r rhaglen gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod y rhaglen LPfN wedi cael £66 miliwn o gyllid rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025. Mae Tabl 1.1 yn dangos faint o gyllid a ddarparwyd i bob cynllun LPfN, fesul blwyddyn ariannol.

**Tabl 1.1: Gwariant y cynllun LPfN (cyllid Llywodraeth Cymru) fesul blwyddyn ariannol**

| Cynllun | Blwyddyn ariannol 2020 i 2021 | Blwyddyn ariannol 2021 i 2022 | Blwyddyn ariannol 2022 i 2023 | Blwyddyn ariannol 2023 i 2024 | Blwyddyn ariannol 2024 i 2025 | Cyfanswm | % o'r cyfanswm terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LNP | £2,660,932 | £5,680,892 | £9,335,149 | £12,969,680 | £17,295,926 | £47,942,579 | 72.6% |
| Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol | Cynllun ddim yn weithredol | Cynllun ddim yn weithredol | Cynllun ddim yn weithredol | £348,041 | £536,077 | £884,118 | 1.3% |
| Pecynnau Cymunedol | £1,807,821 | £1,761,833 | £1,454,780 | £2,449,831 | £3,781,004 | £11,255,269 | 17.0% |
| Grantiau Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth (gan gynnwys gwaith gweinyddol) | £1,065,641 | £1,077,918 | £874,523 | £700,640 | £1,041,587 | £4,760,309 | 7.2% |
| Chwalu Rhwystrau (gan gynnwys gwaith gweinyddol) | Cynllun ddim yn weithredol | £362,000 | £616,000 | Cynllun ddim yn weithredol | Cynllun ddim yn weithredol | £978,000 | 1.5% |
| Un Llais Cymru | Cynllun ddim yn weithredol | £30,621 | £45,000 | £65,175 | £54,936 | £195,732 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | **£5,534,394** | **£8,913,264** | **£12,325,452** | **£16,533,367** | **£22,709,529** | **£66,016,006** | |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodyn - dros y cyfnod o bum mlynedd, cafwyd buddsoddiad o £746,542 gan y Gronfa Dreftadaeth hefyd. Roedd hwn yn gyfraniad o 15% at gyfanswm cyfalaf costau'r cynllun.

Cofnodwyd yr allbynnau canlynol ar gyfer y rhaglen dros y cyfnod o bum mlynedd. Cafodd y ffigurau hyn eu casglu gan Lywodraeth Cymru o adroddiadau a gafodd eu cyflwyno gan y cynlluniau. Maent yn debygol o fod yn amcangyfrifon ceidwadol, gan fod addasiadau wedi'u gwneud i gyfrif am y posibilrwydd o gyfrif ddwywaith. O'r herwydd, maent yn cynrychioli 'o leiaf' yr hyn y mae'r cynlluniau wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ffigurau hyn yn rhoi darlun o nifer ac amrywiaeth y mannau gwyrdd y mae'r rhaglen LPfN wedi'u creu a chyfraniad gwirfoddolwyr at greu'r mannau hyn.

- Safleoedd sy'n gynefin i beillwyr: 3,114
- Safleoedd i dyfu bwyd yn y gymuned: 1,113
- Perllan gymunedol i ffermio ffrwythau brodorol: 1,025
- Coedwigoedd bach, coetiroedd dwys ac amrywiol maint cwrt tennis: 19
- Cynlluniau creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd/cyfnewidfeydd trafnidiaeth: 78
- Gerddi synhwyraidd therapiwtig a ddarperir gydag elusennau iechyd a'r GIG: 110
- Mannau gwyrdd wedi'u creu neu wedi'u gwella: 2,467
- Plannu mwy o flodau gwyllt (ac eithrio safleoedd pryfed peillio o dan y mesurau gweddol bach uchod): 1,021
- Safleoedd ag arferion torri gwair newydd i wella bioamrywiaeth: 1,128
- Cymorth i wirfoddolwyr ac ymgysylltu â'r gymuned (nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi helpu i sefydlu man gwyrdd): 14,750

# 2. Methodoleg

## 2.1 Trosolwg

Defnyddiwyd dull gwerthuso ar sail damcaniaeth fel sail i'r gwerthusiad hwn. Mae'r dull yn canolbwyntio ar 'ddamcaniaeth newid' sydd wedi'i diffinio'n dda ar gyfer y rhaglen, a ddatblygwyd fel rhan o gamau cychwynnol y gwerthusiad, fel y nodir yn yr adroddiad interim. Ar ôl sefydlu'r ddamcaniaeth, caiff ei phrofi drwy nifer o ffynonellau tystiolaeth.

Roedd y gwerthusiad hwn yn ystyried y rhaglen LPfN drwy lens 'dull realaidd', sef dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth. Mae gwerthusiad realaidd yn ffordd o ddeall beth sy'n gweithio, i bwy, o dan ba amgylchiadau, a pham. Yn hytrach na gofyn "Ydy'r rhaglen hon wedi gweithio?", mae gwerthusiad realaidd yn treiddio'n ddyfnach. Mae'n edrych ar y cyd-destun (y lleoliad neu'r sefyllfa), y mecanwaith (sut mae'r rhaglen yn gweithio), a'r canlyniad (beth ddigwyddodd). Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer rhaglenni cymdeithasol cymhleth fel LPfN oherwydd mae'n cydnabod bod pobl a lleoedd yn wahanol, a bod newid yn digwydd mewn gwahanol ffyrdd. Mae hefyd yn arbennig o berthnasol i LPfN oherwydd yr amrywiaeth o fecanweithiau darparu ar draws cynlluniau LPfN sy'n gweithio at yr un canlyniadau. Mae rhagor o fanylion am y dull realaidd ar gael yn Atodiad B.

Defnyddiwyd dulliau cymysg ar gyfer y gwerthusiad hwn, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys:

- Monitro data ac astudiaethau achos a gesglir gan y cynlluniau
- Cyfweliadau â staff y cynllun a'r prosiect
- Arolygon o gyfranogwyr y cynllun
- Ymweld â safleoedd prosiectau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini sy'n darparu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae'r dulliau hyn yn cyfuno gwybodaeth ansoddol (straeon a phrofiadau a gofnodwyd mewn adroddiadau prosiectau ac a gasglwyd yn ystod ymweliadau safle a chyfweliadau) â data meintiol (niferoedd ac ystadegau a ddarparwyd drwy fonitro data ac arolwg) i greu sylfaen dystiolaeth fwy cyflawn a dibynadwy y gellir ei defnyddio i lunio barn am y rhaglen.

Mae'n bwysig pwysleisio bod LPfN yn rhaglen eang, ac mae'n cwmpasu cynlluniau sy'n darparu amrywiaeth eang o weithgareddau. Er bod yr ehangder hwn wedi ei gwneud yn anodd casglu tystiolaeth sy'n adlewyrchu pob gweithgaredd, roedd y gwerthusiad yn ceisio cynnwys prosiectau sy'n cynrychioli gwahanol fathau o waith, fel gerddi cymunedol a mentrau i gynyddu cynefinoedd pryfed peillio. Mae'r ffocws yma ar brosiectau sy'n ymgysylltu â chymunedau lleol a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni, ond mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys camau gweithredu dan arweiniad awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnwys cyfranogiad uniongyrchol gan y cyhoedd—megis newidiadau i ddulliau rheoli glaswelltir ar safleoedd trefol. Er bod y camau hyn yn llai gweladwy i drigolion, gallant barhau i wella bioamrywiaeth leol a chyfrannu at amgylcheddau iachach a mwy deniadol, sydd yn eu tro yn cefnogi llesiant cymunedol. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhan o'r gwerthusiad hwn.

## 2.2 Dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad terfynol

Roedd cam olaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ymgysylltu ag unigolion a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau drwy arolwg a thrwy ymweld â sampl o brosiectau a gefnogwyd. Nod y dull hwn oedd darparu tystiolaeth fwy cyson ac annibynnol o'r canlyniadau a gyflawnwyd. Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd hefyd yn ceisio casglu gwybodaeth i nodi'r mecanweithiau sy'n egluro sut roedd y canlyniadau hynny'n cael eu cyflawni a pham. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau pwysig i'r dull gweithredu a'r data a gesglir, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

### 2.2.1 Arolwg o gyfranogwyr prosiectau

Defnyddiwyd arolwg i gasglu gwybodaeth gan amrywiaeth eang o unigolion sy'n rhan o brosiectau sy'n cael eu hariannu gan LPfN, gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr mewn gweithgareddau ac aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn pasio heibio neu'n mynd i'r safleoedd y tu allan i gwmpas y prosiect. Dewiswyd y dull hwn oherwydd ei allu i gasglu data cyson y mae modd ei gymharu ar draws nifer o leoliadau, gan gynnig hyblygrwydd hefyd o ran sut cafodd yr arolygon eu dosbarthu a'u cwblhau.

Yn ogystal â'r rheini a oedd yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn prosiect, bwriad yr arolwg oedd cyrraedd pobl nad oeddent efallai'n ymwneud ag agweddau ffurfiol ar gyflawni'r prosiect, fel ymwelwyr achlysurol, preswylwyr, neu gyfranogwyr tro cyntaf. Dewiswyd y dull hwn hefyd oherwydd nad oedd gan Lywodraeth Cymru nac arweinwyr cynlluniau restrau cyswllt cynhwysfawr ar gyfer yr holl gyfranogwyr, a gellid rhannu'r arolwg yn eang i gefnogi'r gwaith o gasglu data.

Er mwyn sicrhau cyrhaeddiad a pherthnasedd eang, cafodd arolygon eu rhannu ymysg rheolwyr cynlluniau LPfN, a gofynnwyd iddynt eu dosbarthu ar draws yr amrywiol brosiectau roeddent yn eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys fformatau digidol a phapur lle bo hynny'n briodol, gan ganiatáu cyfranogiad cynhwysol ar draws gwahanol grwpiau demograffig ac anghenion mynediad. Defnyddiwyd dull caseg eira i ddosbarthu'r arolwg mor eang â phosibl. I ddechrau, roedd rheolwyr cynlluniau wedi rhannu'r holiadur â swyddogion ac arweinwyr prosiectau, a gofynnwyd iddynt wedyn ei rhannu â phobl eraill a oedd yn ymwneud â'r gwaith darparu, gan gynnwys staff, aelodau partneriaethau, gwirfoddolwyr a chydweithwyr. Roedd y rhai a gafodd yr arolwg yn cael eu hannog hefyd i anfon yr arolwg ymlaen at unrhyw un arall a oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect. Defnyddir y dull hwn yn aml pan na ellir cyrraedd y grŵp targed yn uniongyrchol.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau meintiol ac ansoddol, gan roi lle i ymatebwyr fyfyrio ar eu profiadau, eu hagweddau at natur, a'u canfyddiadau o'r safleoedd.

Cafwyd cyfanswm o 178 o ymatebion i'r arolwg. Dangosir dosbarthiad yr ymatebion hynny fesul cynllun LPfN a rôl yr ymatebydd yn Nhabl 2.1 a 2.2.

**Tabl 2.1: Rôl ymatebwyr yr arolwg mewn prosiect LPfN**

| Rôl yr ymatebydd | Nifer | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Gwirfoddolwr sy'n rhan o'r prosiect mewn rhyw ffordd | 56 | 31.5% |
| Wedi'i gyflogi gan y prosiect neu aelod o staff neu bartner sy'n ymwneud â gweithredu a/neu gyflawni prosiect | 72 | 40.4% |
| Rhywun sydd wedi cael ei gefnogi gan y prosiect mewn rhyw ffordd (wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddigwyddiadau er enghraifft) | 37 | 20.8% |
| Rhywun sydd heb fod yn rhan uniongyrchol o'r prosiect, ond sydd wedi defnyddio neu ymweld â safle sydd wedi cael ei greu a/neu ei ddatblygu gan y prosiect | 3 | 1.7% |
| Arall | 10 | 5.6% |
| **Cyfanswm** | **178** | |

Mae Tabl 2.1 yn dangos bod grŵp mawr o ymatebwyr i'r arolwg wedi bod yn rhan o brosiect mewn rhinwedd broffesiynol (40.4%). Roedd cyfran gymharol fawr o'r ymatebwyr naill ai'n wirfoddolwyr (31.5%) neu wedi cael eu cefnogi gan brosiectau mewn rhyw ffordd (20.8%). Fodd bynnag, nid oedd yr arolwg yn casglu data gan lawer o bobl nad oeddent wedi bod yn rhan uniongyrchol o brosiect (1.7% o'r ymatebwyr) sy'n dangos yr heriau o ran ymgysylltu â'r grŵp hwnnw yn y math hwn o ymchwil. Mae hon hefyd yn un o ganlyniadau'r dull pelen eira (dull samplu cadwynol) a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg sy'n cyfyngu ar lefel y rheolaeth dros ymatebion, yn enwedig ymhellach i lawr y gadwyn cyfranogiad.

Dylid nodi bod cyfran o'r rhai a oedd yn rhan o brosiect mewn rhinwedd broffesiynol yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau (N=26 allan o 72).

**Tabl 2.2: Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg fesul cynllun LPfN**

| Cynllun | Nifer | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Chwalu Rhwystrau | 7 | 3.9% |
| Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol | 6 | 3.4% |
| Pecynnau Cymunedol | 125 | 71.3% |
| Cronfa Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth | 17 | 10.1% |
| LNP | 20 | 10.1% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 1.7% |
| **Cyfanswm** | **178** | |

Mae Tabl 2.2 yn dangos mai'r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau a oedd yn cael eu hariannu gan y cynllun Pecynnau Cymunedol oedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yr arolwg. Nid yw hyn yn syndod gan ei fod yn cyd-fynd â'r ffaith bod nifer uwch o brosiectau yn cael eu hariannu gan yr elfen honno o'r rhaglen LPfN rhwng 2020 a mis Mawrth 2025 (o'i gymharu â'r cynlluniau eraill):

- Pecynnau Cymunedol wedi ariannu dros 1,000 o brosiectau
- Partneriaethau Natur Leol wedi ariannu dros 125 o brosiectau
- Y Cynllun Grant Cyfalaf wedi'i ariannu 69 o brosiectau
- Y Cynllun Chwalu Rhwystrau wedi ariannu 11 o brosiectau

- Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol wedi ariannu 11 o brosiectau.

Mae hefyd yn bwysig nodi ble’r oedd ymatebwyr yn byw. Cafwyd 177 o ymatebion i’r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach (38%, 67 allan o 177) neu mewn pentref mawr neu dref fach (36%, 64 allan o 177) a allai fod wedi dylanwadu ar ymatebion i nifer o gwestiynau yn yr arolwg. Er enghraifft, gallai mannau gwyrdd fod yn fwy cyffredin mewn lleoliadau gwledig ond hefyd yn llai hygyrch o bosibl oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig. Dywedodd yr ymatebwyr eraill eu bod yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr (9%, 16 allan o 177) neu faestrefi dinas neu dref fawr (16%, 29 allan o 177). Mae angen ystyried canfyddiadau'r arolwg a nodir yn yr adroddiad hwn yn y cyd-destun hwn.

## 2.2.2 Ymweliadau safle a chyfweliadau

Pwrpas ymweld â safleoedd oedd ymgysylltu'n fanylach â sampl o brosiectau. Darparwyd manylion cyswllt ar gyfer ymweliadau posibl gan reolwyr cynlluniau, ond nid oedd hyn bob amser yn bosibl - er enghraifft, nid oedd manylion cyswllt ar gael ar gyfer cynlluniau’r Gronfa Dreftadaeth: Grantiau Cyfalaf a Chwalu Rhwystrau. Mewn achosion o'r fath, defnyddiwyd gwybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd i gysylltu â sefydliadau a oedd yn cael eu hariannu gan y cynlluniau.

Fel rhan o'r ymweliadau, roedd ymchwilydd o'r tîm gwerthuso wedi cymryd rhan fel gwirfoddolwr (os oedd hynny’n briodol) ac roedd wedi ymgysylltu â'r rhai a oedd yn bresennol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a/neu ymwelwyr â'r safle. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda'r rheolwr prosiect/safle dan sylw cyn yr ymweliad.

Cyn yr ymweliadau safle, cynhaliwyd cyfanswm o 21 o gyfweliadau gyda rheolwyr prosiect a safleoedd a oedd yn gweithio ar draws safleoedd ac agweddau ar y rhaglen LPfN fel rhan o'r elfen hon o'r ymchwil. Dyma nifer y cyfweliadau fesul cynllun LPfN:

- Pecynnau Cymunedol: 6 chyfweliad
- LNP: 6 chyfweliad
- Chwalu Rhwystrau: 4 cyfweliad
- Grantiau Cyfalaf: 3 chyfweliad
- Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol: 2 gyfweliad

Cyflwynwyd y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol gan y Partneriaethau Natur Lleol felly roedd gorgyffwrdd rhwng y cyfweliadau hynny (roedd pedwar o'r cyfweliadau Partneriaethau Natur Lleol yn gweithio mewn ardaloedd 'arfordirol'). Ar ben hynny, roedd rhai o'r cysylltiadau wedi cael eu cynnwys yn gynharach yn y gwerthusiad (n=5) ac felly, er mwyn lleihau'r baich cymryd rhan, nid oeddent wedi cael eu cynnwys yn y cam hwn.

Y bwriad oedd cael mwy o gydbwysedd yn nifer y cyfweliadau fesul cynllun. Fodd bynnag, roedd heriau o ran ymgysylltu lle'r oedd y staff a oedd yn gyfrifol am brosiect wedi gadael y sefydliad. Roedd yr heriau hyn yn arbennig o berthnasol i ymgysylltu â phrosiectau Grantiau Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth, Chwalu Rhwystrau ac Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol. Pwrpas y cyfweliadau hyn yn y lle cyntaf oedd edrych ar ddichonoldeb ymweliadau posibl â safleoedd a chasglu gwybodaeth gychwynnol i helpu i siapio ffocws a logisteg y

gwaith maes. Ar ben hynny, roedd y sgyrsiau hefyd yn helpu i nodi themâu allweddol, cyd-destunau penodol i safle, ac unrhyw effeithiau prosiect a allai lywio'r dull gwerthuso ehangach.

Fodd bynnag, roedd y cyfweliadau eu hunain hefyd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar safleoedd llwyddiannus a oedd wedi cael cyllid. Roedd y cyfweliadau hyn yn tynnu sylw at ganlyniadau canfyddedig yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da, ymgysylltu â'r gymuned, a gwelliannau amgylcheddol, gan gynnig sylfaen i nodi safleoedd a allai fod yn astudiaethau achos ar gyfer gwaith maes pellach. Roeddent hefyd yn archwilio sut a pham y cynhyrchwyd canlyniadau gyda swyddogion prosiectau a safleoedd, yn unol â'r dull gwerthuso realaidd.

Dewiswyd y prosiectau lle byddai ymweliadau safle yn cael eu cynnal i gofnodi'r amrywiaeth o gyd-destunau daearyddol a chymdeithasol y mae'r rhaglen yn gweithredu ynddynt. Dewiswyd y safleoedd i gynnwys cymysgedd cytbwys o leoliadau trefol, gwledig a lled-drefol i weld sut mae'r rhaglen yn gweithredu ar draws tirweddau a lleoliadau cymunedol amrywiol.

Yn ymarferol, roedd trefnu ymweliadau safle yn heriol ac yn cymryd llawer o amser. Un rheswm allweddol oedd bod llawer o brosiectau wedi dod i ben, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw weithgarwch yn digwydd yn ystod y cyfnod a oedd ar gael. Mewn rhai achosion, cafodd ymweliadau wedi'u trefnu hefyd eu canslo oherwydd tywydd gwael. Pan nad oedd modd ymweld â phrosiect penodol, nodwyd prosiect arall gyda nodweddion tebyg a cheisiwyd trefnu ymweliad. Y bwriad oedd ymweld â hyd at 30 o safleoedd; ond, nid oedd modd cyflawni hyn o fewn yr amserlen a oedd ar gael ynghyd â'r cyfyngiadau a nodwyd eisoes.

Cynhaliwyd cyfanswm o 16 o ymweliadau â safleoedd, a chynhaliwyd 84 o gyfweliadau gyda'r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod yr ymweliad (cyfartaledd o ychydig dros 5 cyfweliad fesul ymweliad). Dangosir dosbarthiad ymweliadau safle fesul cynllun a nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod yr ymweliad yn Nhabl 2.3 isod.

**Tabl 2.3: Dosbarthiad y prosiectau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad LPfN**

| Cynllun | Nifer yr ymweliadau | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|---|
| Chwalu Rhwystrau | 2 | 8 |
| Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol | 0 | 0 |
| Pecynnau Cymunedol | 6 | 40 |
| Y Gronfa Cyfalaf | 2 | 6 |
| Prosiectau sy’n cael eu hariannu gan LNP | 6 | 30 |
| **Cyfanswm** | **16** | **84** |

Mae'r diffyg ymweliadau â phrosiectau Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yn adlewyrchu natur y prosiectau hyn, nad oeddent bob amser yn cynnwys 'safle' ffisegol i ymweld ag ef.

Cynhaliwyd nifer fach o gyfweliadau ychwanegol dros y ffôn gyda rheolwyr a chyfranogwyr prosiectau pan nad oedd modd ymweld â safleoedd i ategu a mynd i'r afael â bylchau yn yr wybodaeth a gasglwyd, os oedd modd gwneud hynny. Ar gyfer y cyfweliadau hyn, anfonwyd negeseuon e-bost at ddetholiad o brosiectau a sefydliadau a oedd wedi cael eu cefnogi i ofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad (fel y rheolwr prosiect) a/neu ddarparu manylion cyswllt ar gyfer unigolion a oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect er mwyn iddynt allu cael eu cyfweld. Gofynnwyd hefyd i brosiectau a sefydliadau a gefnogir ailddosbarthu dolen yr arolwg i

gyfranogwyr y prosiect (fel y cyflwynwyd uchod) gyda'r bwriad o gynyddu nifer yr ymatebwyr i'r arolwg.

Roedd y dull gweithredu wedi cynyddu nifer yr ymatebion i'r arolwg, ond dim ond llwyddiant cyfyngedig a gafodd o ran cynnal cyfweliadau ychwanegol:

- Dau wirfoddolwr mewn prosiectau a ariennir gan Grant Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth
- Un gwirfoddolwr a oedd yn rhan o brosiect Chwalu Rhwystrau

### 2.2.3 Adolygiad llenyddiaeth

Dyrannwyd adnoddau ychwanegol i adolygiad llenyddiaeth mewn ymateb i'r niferoedd ymateb is na'r disgwyl i'r ymchwil sylfaenol a wnaed ar gyfer y gwerthusiad, fel y cyflwynwyd uchod. Pwrpas yr adolygiad oedd nodi ymchwil a oedd wedi archwilio materion tebyg i'r rhai a ystyriwyd yn y gwerthusiad hwn. Yna gellid cymharu canfyddiadau'r ymchwil honno â'r ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad yn ystod y dadansoddiad.

### 2.2.4 Dadansoddi a dehongli

Cynhaliwyd y cam dadansoddi a dehongli o safbwynt 'gwerthusiad realaidd' (gweler Atodiad B). Yn y dadansoddiad o’r gwerthusiad, yn dilyn y dadansoddiad cychwynnol o'r data a gasglwyd, roedd y ddamcaniaeth newid yn sail i gyfres o 'ddatganiadau esboniadol' sy'n egluro sut mae prosiectau'n cyflawni canlyniadau a pham. Defnyddiwyd fframwaith (a ddatblygwyd gyntaf yn Dalkin ac eraill, 2015) i greu a phrofi’r datganiadau hyn, a oedd yn rhannu pob datganiad yn ‘Gyd-destun’, ‘Mecanwaith’, a ‘Chanlyniad’, ac fe’i mynegwyd gan ddefnyddio fformat “os–yna–oherwydd” i ddangos y rhesymeg y tu ôl iddo (gweler Atodiad B a C i gael rhagor o fanylion). Ar gyfer pob datganiad, adolygwyd y data a oedd ar gael, gan gynnwys yr adroddiad gwerthuso interim, yr adolygiad llenyddiaeth, data’r arolwg, cyfweliadau o’r ymweliadau safleoedd, a’r cyfweliadau dros y ffôn, i benderfynu a ganfuwyd tystiolaeth berthnasol i gefnogi neu herio'r datganiadau hyn.

Roedd y data meintiol ac ansoddol a gasglwyd wedi cael eu dadansoddi ar wahân gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Roedd data meintiol a gasglwyd drwy'r arolwg yn destun dadansoddiad ystadegol, gan gynnwys cyfrifo amlderau, canrannau a chroesdablu i nodi patrymau rhwng newidynnau. Lle bo'n briodol, cafodd yr is-grwpiau eu dadansoddi i edrych ar wahaniaethau mewn ymatebion yn ôl nodweddion demograffig neu fath o brosiect.

Ar gyfer data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweliadau ac ymatebion i arolygon penagored, defnyddiwyd dull codio thematig systematig. Cafodd yr ymatebion eu hadolygu a'u codio i nodi themâu, cysyniadau a mewnwelediadau a oedd yn codi dro ar ôl tro, gan ganiatáu ar gyfer cymharu safbwyntiau ar draws gwahanol brosiectau a grwpiau cyfranogwyr.

Roedd y dulliau cymysg yn galluogi'r gwerthusiad i driongli canfyddiadau, cryfhau dilysrwydd y canlyniadau, a darparu dealltwriaeth gyfoethocach o sut a pham y cyflawnwyd canlyniadau. Cafodd canfyddiadau'r gwahanol fathau o ddadansoddiadau eu cymharu, eu hintegreiddio a’u triongli i weld sut roedd y datganiadau esboniadol yn cael eu cefnogi neu eu herio pan ystyriwyd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth hefyd. Mae triongli data yn golygu defnyddio nifer o ffynonellau neu fathau o ddata i edrych ar yr un mater. Roedd casglu ynghyd

wybodaeth o arolygon, cyfweliadau, arsylwadau a'r adolygiad llenyddiaeth wedi helpu i wirio a chryfhau canfyddiadau'r gwerthusiad, gan roi darlun mwy llawn a dibynadwy.

# 3. Y prif ganfyddiadau: Canlyniadau prosiect LPfN, sut maent yn cael eu cyflawni a pham

Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n dair prif ran. Mae'r rhan gyntaf yn asesu canlyniadau cymryd rhan mewn prosiectau LPfN i'r unigolion dan sylw. Mae'r ail ran yn ystyried beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu o ran sut mae'r canlyniadau hynny wedi cael eu cyflawni, a pham. Yn olaf, mae'r drydedd ran yn edrych ar oblygiadau'r canfyddiadau o safbwynt rheoli polisi a rhaglen.

Mae'r canfyddiadau'n defnyddio data arolwg, cyfweliadau, ymweliadau safle, a llenyddiaeth ymchwil berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod y canfyddiadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar y prosiectau hynny yn unig ac ar adborth gan y bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn. O'r herwydd, nid yw'r dystiolaeth yn cynrychioli pa mor eang ac amrywiol yw'r rhaglen LPfN, a dylid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus. Serch hynny, mae'r canfyddiadau'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar y canlyniadau a gynhyrchir gan brosiectau LPfN sy'n gweithredu ar lefel gymunedol.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, cafwyd 178 o ymatebion i'r arolwg, er bod nifer yr ymatebion i gwestiynau unigol yn amrywio. Dim ond i rai grwpiau y gofynnwyd rhai cwestiynau, ac ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Nodir felly nifer yr ymatebion yn y drafodaeth ddilynol a dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

Pan gyfeirir at 'gyfranogwyr prosiect' yn y drafodaeth isod, mae'r term hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gysylltiedig fel buddiolwyr, cefnogwyr, ymwelwyr â'r safle, a phobl eraill sy'n rhan o'r prosiect. Er mwyn cadw pethau'n syml, nid yw'r drafodaeth yn gwahaniaethu rhwng y grwpiau hyn, oni nodir yn wahanol; ystyrir bod pob un ohonynt yn 'gyfranogwyr' yng nghyd-destun y prosiect. Mae hefyd yn bwysig nodi y gellir ystyried bod staff, yn ogystal â chyfranogwyr, yn 'fuddiolwyr' posibl prosiect LPfN, gan y gallai eu cyfranogiad mewn gweithgareddau hefyd arwain at newidiadau yn eu safbwyntiau, eu hagweddau neu eu llesiant.

## 3.1 Rhan 1: Beth oedd canlyniadau personol a chymunedol prosiectau LPfN?

Un o'r canfyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso interim oedd bod cynlluniau LPfN yn cefnogi llawer o weithgareddau ledled Cymru ac yn llythrennol mae miloedd o safleoedd wedi cael eu creu neu eu gwella (cyfeiriwch at adran 1.4). Mae'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar beth mae hynny wedi'i olygu i'r bobl a'r cymunedau dan sylw.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oedd yn cael eu cyflogi gan y prosiect neu'n staff neu'n bartneriaid a oedd yn ymwneud â gweithredu a/neu gyflawni prosiect (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'staff') (N=69) ddewis yr effeithiau yr oeddent wedi'u gweld mewn cymunedau o ganlyniad i'w prosiect. Y tri chanlyniad a nodwyd amlaf, o bell ffordd, oedd 'y gymuned yn ymgysylltu'n well â mannau gwyrdd a naturiol lleol', 'llesiant meddyliol cymunedol gwell', a 'mwy o ryngweithio cymdeithasol a chysylltiadau o fewn cymunedau a rhyngddynt, er enghraifft drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau grŵp'.

**Tabl 3.1: Ymateb i'r cwestiwn: Pa effeithiau ydych chi wedi sylwi arnynt mewn cymunedau, os o gwbl, o ganlyniad i'ch prosiect? Wedi'i ddewis o'r opsiynau a ddarparwyd.**

| Canlyniad | N | % |
|---|---|---|
| Y gymuned yn ymgysylltu'n well â mannau gwyrdd a naturiol lleol | 48 | 70% |
| Mwy o ryngweithio a chysylltiadau cymdeithasol o fewn a/neu rhwng cymunedau, ee drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau grŵp | 47 | 68% |
| Gwell llesiant meddyliol cymunedol | 42 | 61% |
| Partneriaethau cryfach ymysg grwpiau cymunedol | 36 | 52% |
| Llai o rwystrau i gymunedau ymgysylltu â mannau gwyrdd a naturiol lleol | 32 | 46% |
| Gwell dealltwriaeth o faterion cynaliadwyedd a sut i weithredu, ee newid yn yr hinsawdd, lleihau gwastraff, neu ymdrechion cadwraeth | 28 | 41% |
| Iechyd corfforol cymunedol gwell | 23 | 33% |
| Hwyluso grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli i gael gafael ar gymorth arall lle bo angen, ee cymorth a gwasanaethau i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol. | 12 | 17% |

N=69 (cwestiwn i staff yn unig)

Mae ymgysylltu â chymunedau lleol, ac weithiau grwpiau penodol yn y cymunedau hynny, wedi bod yn nodwedd allweddol o brosiectau LPfN. Canfu'r gwerthusiad interim fod llawer o brosiectau'n cynnwys gwirfoddolwyr a grwpiau lleol, gyda pherchnogaeth gymunedol gref a chydweithio'n dod i'r amlwg fel ffactorau allweddol ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus. Roedd yr astudiaethau achos a'r cyfweliadau dan sylw yn yr adroddiad interim hefyd yn dangos bod prosiectau'n aml yn gweithio gyda grwpiau penodol mewn cymunedau, fel ysgolion, cymdeithasau lleol, a mentrau wedi'u targedu sydd wedi'u hanelu at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae'r tri phrif ganlyniad a nodwyd gan staff prosiect a ymatebodd i'r arolwg (a drafodir ymhellach yn nes ymlaen yn yr adran hon) i gyd yn dibynnu ar allu prosiect i ymgysylltu â'r gymuned leol a'u hannog i gymryd rhan. Felly, mae'n bwysig deall pwy sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau, a pham, ac mae hyn yn cael ei archwilio wrth i'r adran hon fynd rhagddi.

## Newidiadau mewn safbwyntiau ac agweddau

Roedd y trafodaethau gyda chyfranogwyr yn ystod ymweliadau safle yn tynnu sylw at sut gall prosiectau LPfN ddylanwadu ar y ffordd mae rhai cyfranogwyr yn meddwl am natur a bioamrywiaeth, er bod maint y newid hwnnw'n amrywio. Mewn sawl achos, disgrifiodd cyfranogwyr newid o ddiddordeb cyffredinol yn yr amgylchedd lleol i ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb dros yr amgylchedd lleol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn prosiectau a oedd yn cyfuno gweithgarwch ymarferol â chyfleoedd dysgu neu'n tynnu sylw at bresenoldeb rhywogaethau pwysig (roedd hyn yn amlwg ar gyfer pump o'r safleoedd yr ymwelwyd â nhw) gan roi syniad o sut a pham y cyflawnwyd y canlyniad hwn, sy'n cael ei archwilio ymhellach yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Er enghraifft, ar un safle, roedd darganfod rhywogaeth warchodedig wedi cymell cyfranogwyr i ymgymryd â hyfforddiant arbenigol a mabwysiadu rôl stiwardio anffurfiol, gan fonitro

cynefinoedd a rhannu gwybodaeth ag eraill yn rheolaidd. Mae hyn hefyd yn enghraifft o brosiect sy'n ddigon hyblyg i ymateb i sefyllfa sy'n dod i'r amlwg.

> “[Mae cymryd rhan yn y prosiect wedi] gwneud i mi feddwl mwy am iechyd afonydd a llynnoedd ac y gallai pethau edrych yn lân pan nad ydyn nhw.” Cyfranogwr prosiect

Nodwyd newidiadau llai ond ystyrlon mewn arferion a chanfyddiadau bob dydd gan rai cyfranogwyr. Roeddent yn disgrifio mabwysiadu arferion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, fel gadael blodau dant y llew yn eu lle a/neu ddysgu i wneud tasgau cadwraeth yn fwy gofalus er mwyn osgoi niwed i fywyd gwyllt.

> “Pan fyddwn ni'n gweithio, mae'n hawdd difrodi pethau, felly rydw i wedi dysgu bod yn fwy gofalus.” Cyfranogwr Prosiect

Mewn prosiectau tyfu bwyd yn y gymuned yr ymwelwyd â nhw, roedd y cyfranogwyr yn tynnu sylw at sut roedd gweithgareddau cynhyrchu bwyd yn eu helpu nhw a'u teuluoedd i werthfawrogi rôl natur mewn bywyd bob dydd, gyda sylwadau am addysgu plant o ble daw bwyd a phwysigrwydd tyfu tymhorol.

> “Mae'n helpu i fagu cenhedlaeth o bobl sy'n gwybod o ble mae eu bwyd yn dod.” Cyfranogwr Prosiect

Roedd yr arolwg ar-lein yn golygu bod modd archwilio canlyniadau ar raddfa fwy. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr o'r farn bod cymryd rhan yn y prosiect wedi bod o fudd iddynt mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwella eu dealltwriaeth o natur a bioamrywiaeth (70%) a chynyddu eu gwerthfawrogiad o natur a bioamrywiaeth (69%) (N=114). Gofynnwyd y cwestiwn hwn i holl ymatebwyr yr arolwg, ac roedd y canfyddiadau'n gyson â'r rhai o'r ymweliadau safle.

Er mwyn archwilio safbwyntiau ac agweddau at natur a bioamrywiaeth ymhellach, gofynnwyd wedyn i ymatebwyr yr arolwg a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau. Mae’r ymatebion yn Nhabl 3.2.

**Tabl 3.2: Ymatebion i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Mae mannau gwyrdd a naturiol lleol yn...**

| Datganiad | Cytuno'n gryf | Cytuno | Niwtral | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Llefydd da ar gyfer iechyd meddwl a llesiant | 86% | 13% | 1% | 0% | 0% |
| Darparu cyfleoedd da i weld byd natur | 68% | 27% | 4% | 0% | 0% |
| Llefydd da i blant chwarae | 55% | 32% | 11% | 3% | 0% |
| Llefydd sy'n annog gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff | 54% | 37% | 8% | 2% | 0% |
| Llefydd da i gwrdd â phobl eraill | 53% | 35% | 11% | 2% | 0% |
| O fewn pellter cerdded hawdd | 52% | 42% | 3% | 2% | 2% |
| Safon ddigon uchel fel bod pobl eisiau treulio amser yno | 46% | 39% | 13% | 3% | 0% |

N=114 (cwestiwn i'r holl ymatebwyr)

Roedd yr ymateb yn gadarnhaol ar gyfer pob datganiad, yn enwedig o ran a yw mannau gwyrdd lleol yn llefydd da ar gyfer iechyd meddwl a llesiant, gyda 99% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Mae hwn yn ganlyniad personol sy'n cael ei drafod ymhellach yn nes ymlaen yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae safbwyntiau wedi newid ar y materion hyn yn bwysig o safbwynt gwerthuso.

Un o ganfyddiadau allweddol y broses damcaniaeth newid (fel y nodir yn yr adroddiad interim) oedd bod proffil yr unigolyn sy'n rhan o brosiect LPfN yn bwysig o ran y canlyniad y byddai ei gyfranogiad yn ei gyflawni. Os oedd gan gyfranogwyr farn gadarnhaol am natur a bioamrywiaeth yn barod, nid oedd llawer o le i newid eu hagweddau ymhellach. Yn hytrach, roedd y cynlluniau LPfN yn atgyfnerthu ac yn cryfhau'r safbwyntiau cadarnhaol presennol hyn. I'r gwrthwyneb, os oedd gan gyfranogwyr agweddau negyddol neu ddifater at y materion hyn, roedd gan y cynlluniau fwy o botensial i newid agwedd mewn ffordd ystyrlon er bod cyflawni canlyniad o'r fath yn debygol o fod yn fwy heriol.

Gofynnwyd felly i ymatebwyr yr arolwg a oedd eu safbwyntiau am y datganiadau uchod wedi newid ar ôl cymryd rhan mewn prosiect LPfN. Dywedodd y mwyafrif (64% - 72 allan o 114) fod eu safbwyntiau wedi newid gan awgrymu effaith gadarnhaol ar ôl cymryd rhan mewn prosiect LPfN. Ond, o'r rhai a nododd newid, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi newid 'i ryw raddau' (46%, 52 allan o 114), gyda dim ond 18% (20 allan o 114) yn dweud bod eu safbwyntiau wedi newid 'yn fawr'. Ar ben hynny, nododd grŵp sylweddol o ymatebwyr (33% - 38 allan o 114) nad oedd eu safbwyntiau wedi newid yn sgil prosiect LPfN, gyda'r gweddill yn ansicr.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod prosiectau LPfN (er bod y data'n cael ei nodi gan y cyfranogwyr eu hunain) yn cael effaith gadarnhaol fesuradwy ar agweddau cyfranogwyr yn y sampl at natur a bioamrywiaeth, gyda bron i ddwy ran o dair yn nodi rhywfaint o newid yn eu safbwyntiau. Ategir y canfyddiad cadarnhaol hwn gan dystiolaeth o ymweliadau safle, lle disgrifiodd cyfranogwyr hefyd newid o ddiddordeb cyffredinol yn yr amgylchedd lleol i

ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb drosto er enghraifft. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai atgyfnerthu a dyfnhau safbwyntiau presennol yw natur y newid hwn yn bennaf, yn hytrach na thrawsnewid agweddau sylfaenol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a brofodd newid ei fod yn digwydd "i ryw raddau" yn hytrach na “yn fawr”, gan awgrymu bod y prosiectau'n mireinio ac yn cryfhau safbwyntiau cadarnhaol a oedd yn bodoli eisoes yn hytrach na chyflawni'r amcan mwy heriol o droi amheuwyr.

Dywedodd cyfran sylweddol o gyfranogwyr nad oedd eu safbwyntiau wedi newid. Roedd gan yr unigolion hyn agweddau cadarnhaol cryf at faterion amgylcheddol yn barod cyn ymuno â’r rhaglen, a oedd yn golygu nad oedd llawer o le i wella eu hagweddau ymhellach. Mae'r patrwm hwn yn awgrymu y gallai ymdrechion yn y dyfodol i sicrhau mwy o newid mewn agweddau ofyn am ymgysylltu wedi'i dargedu'n well â grwpiau sy'n ymgysylltu llai, sy'n rhywbeth y bydd y drafodaeth yn rhoi sylw iddo yn nes ymlaen yn Rhan 2 lle mae'r mecanweithiau sy'n cynhyrchu'r canlyniadau'n cael eu hystyried.

## Newid ymddygiad

Cwestiwn allweddol yw a yw'r newidiadau a nodwyd mewn safbwyntiau ac agweddau yn arwain mewn gwirionedd at newidiadau mewn ymddygiad. Mae'r ddamcaniaeth newid a ddatblygwyd ar gyfer LPfN yn dangos bod y rhain yn angenrheidiol er mwyn cyflawni amcan y rhaglen o gynyddu'r gefnogaeth i fyd natur.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, un thema sy'n codi dro ar ôl tro yw pwysigrwydd deall proffil y rheini sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau LPfN wrth asesu canlyniadau prosiectau, a dyna oedd un o amcanion yr arolwg o gyfranogwyr.

Dywedodd holl ymatebwyr yr arolwg a atebodd y cwestiynau perthnasol, a gafodd eu gofyn i bob ymatebydd (N=114), eu bod eisoes yn defnyddio mannau gwyrdd a naturiol i ryw raddau cyn ymuno â phrosiectau LPfN. Gellid categoreiddio'r rhan fwyaf ohonynt hefyd fel defnyddwyr cymharol drwm, gydag 88% (100 allan o 114) yn dweud eu bod yn treulio amser mewn mannau gwyrdd a naturiol o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfartaledd cyn iddynt gymryd rhan mewn prosiect, gan gynnwys grŵp mawr (44) a ddywedodd eu bod yn gwneud hynny bob dydd. Mae hyn yn ddangosydd pwysig o broffil ymatebwyr yr arolwg—yn gyffredinol, roedd sampl y gwerthusiad o gyfranogwyr prosiect LPfN eisoes yn defnyddio mannau gwyrdd a naturiol yn aml. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod cyfyngiadau'r arolwg yn golygu efallai nad yw hyn yn adlewyrchu holl brosiectau neu gyfranogwyr LPfN yn llawn.

O ystyried y proffil hwn, efallai nad yw'n syndod bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg (63%, 67 allan o 107) wedi nodi dim newid yn eu hymddygiad o ran yr amser maent yn ei dreulio yn yr awyr agored ar ôl cymryd rhan mewn prosiect LPfN. Ar gyfer y grŵp hwn, nid oedd llawer o le i wella eu hymddygiad ymhellach. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi nad yw hyn yn awgrymu nad oedd unrhyw ganlyniadau cadarnhaol i'r grŵp hwn. Fel y trafodwyd yn yr is-adran sy'n dilyn, nododd yr arolwg ystod o ganlyniadau ehangach gan gynnwys llesiant personol a datblygu sgiliau newydd. Mae hyn yn awgrymu na ddylid ystyried LPfN yn rhaglen sy'n canolbwyntio'n llwyr ar hwyluso newid mewn ymddygiad. Ar gyfer y grŵp hwn, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y canlyniadau'n canolbwyntio mwy ar wella sgiliau, gwella dealltwriaeth o stiwardiaeth ac ecoleg, a meithrin cysylltiadau

cymunedol cryfach a chyfranogiad dinesig. Dylai hyn fod yn ychwanegol at y Ddamcaniaeth Newid a ddatblygwyd fel rhan o'r adroddiad interim ar gyfer y rhaglen.

Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr (37%, 40 allan o 107) fod eu rhesymau dros ymweld â mannau gwyrdd neu naturiol wedi newid ers iddynt fod yn rhan o brosiect LPfN. Nid yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros ymweld â'r mannau hyn—‘hamdden ac ymlacio’—wedi newid, gyda chynnydd bach nad yw'n arwyddocaol, ar ôl cymryd rhan (o 80 allan o 114 cynt i 86 allan o 114).

Gwelwyd newid mwy nodedig mewn arferion dyddiol eco-gyfeillgar: Atebodd 60% (68 allan o 113) o'r rhai a atebodd y cwestiwn—'Ers i chi gymryd rhan, ydych chi wedi newid unrhyw rai o'ch arferion bob dydd i fod yn fwy eco-gyfeillgar?'—'do', gydag enghreifftiau'n cynnwys mwy o ailgylchu, lleihau gwastraff, a defnyddio cynnyrch cynaliadwy. Roedd y rhan fwyaf yn disgrifio’r rhain fel newidiadau bach (43%, 49 allan o 113), a dywedodd 17% (19 allan o 113) fod 'llawer' o’u harferion wedi newid. Er hynny, dywedodd 40% (45 allan o 113) nad oedd eu harferion wedi newid, gan adlewyrchu'r patrwm a welwyd gyda newidiadau mewn agweddau.

Roedd tystiolaeth o ymweliadau safle yn cefnogi'r canfyddiad bod rhai cyfranogwyr wedi newid eu hymddygiad. Yn yr achosion hynny, awgrymodd trafodaethau fod prosiectau LPfN yn dylanwadu ar ddewisiadau bob dydd, fel cael seibiant yn yr awyr agored a throi gwirfoddoli neu arddio’n arferion rheolaidd.

> “Mae'r ardd yn lle tawel ac ymlaciol... mae'n llawer mwy buddiol na bwyta fy nghinio wrth fy nesg.” Cyfranogwr Prosiect

I rai, roedd hyn yn golygu symud o gyfranogiad achlysurol i stiwardiaeth barhaus, gan cymryd rhan yn amlach. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr eu bod yn ymgymryd â thasgau cynnal a chadw rheolaidd, fel clirio llwybrau, rheoli llystyfiant, a gosod nodweddion cynefin. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn ymestyn i gamau mwy arbenigol, gan gynnwys monitro rhywogaethau gwarchodedig a chynnal a chadw pyllau i annog amffibiaid:

> “Roeddwn i'n un o'r rhai lwcus a gafodd fynd ar y cwrs llygod y dŵr... Dysgais am eu cynefin a nawr dwi'n cadw llygad ar yr arwyddion ac yn rhannu'r hyn rydw i wedi'i ddysgu ag eraill.” Cyfranogwr prosiect

Roedd tystiolaeth hefyd o newid ymddygiad o ran arferion garddio a chynefinoedd, gyda rhai cyfranogwyr yn dweud eu bod yn mabwysiadu arferion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio ac yn creu nodweddion fel gwestai chwilod a blychau adar:

> “Rydyn ni wedi dysgu popeth am wenyn hefyd a nawr dydw i ddim yn lladd blodau dant y llew gan eu bod nhw'n un o'r blodau peillio cyntaf.” Cyfranogwr prosiect

Roedd prosiectau tyfu bwyd yn annog ymddygiad sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, fel addysgu plant o ble daw bwyd, cynaeafu a rhannu cynnyrch:

> “Gall pobl ddod i bigo llysiau pan fyddan nhw'n barod.” Cyfranogwr prosiect

Er na ellir cyffredinoli'r enghreifftiau hyn, maent yn dangos y mathau o newidiadau mewn ymddygiad a allai ddigwydd pan fydd prosiectau'n darparu cyfleoedd ymarferol, manteision ecolegol gweladwy, ac atgyfnerthu cymdeithasol. Roedd ymweld â’r safleoedd hefyd yn

caniatáu archwilio'r rhesymau pam y digwyddodd y newidiadau hyn, sy'n cael ei drafod ymhellach eto yn Rhan 2.

## Nodi canlyniadau personol a chymunedol ehangach

Elfen allweddol o'r ddamcaniaeth newid ar gyfer LPfN oedd bod cymryd rhan mewn prosiectau neu ymweld â safleoedd gwyrdd/natur yn fwy cyffredinol yn arwain at ganlyniadau personol ehangach eraill i'r unigolion dan sylw, yn enwedig o ran eu llesiant personol.

Mae'r cysyniad hwn yn cael ei gefnogi gan ymchwil. Mae canfyddiadau'r Arolwg Pobl a Natur (Cymru) diweddaraf yn dangos bod 69% o'r ymatebwyr yn credu bod treulio amser mewn mannau gwyrdd a naturiol lleol yn cefnogi eu hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol, a dywedodd 63% fod y mannau hyn yn gyfleoedd gwerthfawr i gwrdd â phobl eraill. Mae sylfaen dystiolaeth sefydledig hefyd sy'n dangos bod gweithgarwch amgylcheddol sy'n seiliedig ar le a chreu mannau naturiol yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad cymdeithasol ac arwain at fwy o ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad dinesig (er enghraifft, Kiss ac eraill, 2022).

Yn aml, mae ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, sy'n ysgogi asedau a seilwaith gwyrdd lleol, yn helpu unigolion i feithrin cysylltiadau ystyrlon ag eraill a theimlo eu bod wedi'u grymuso i weithredu yn eu hardaloedd lleol. Er enghraifft, mae Mihirini a Chettham, 2024 yn edrych ar y cyfleoedd y mae gweithgareddau creadigol sy'n seiliedig ar natur yn eu cynnig i ysgogi cysylltiadau cymdeithasol drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned o wella llesiant unigolion a grwpiau.

Mae enghreifftiau mewn ymchwil presennol yn cynnwys mentrau gwirfoddoli lleol a chamau gweithredu ar y cyd fel y rhai sy’n cael eu cefnogi gan LPfN, sy'n aml yn arwain at fwy o gyfranogiad dinesig. Gall preswylwyr gydweithio i gynllunio, creu neu gynnal mannau gwyrdd, a dangoswyd bod y dull cyfranogol hwn yn cryfhau cydlyniant cymdeithasol ac yn meithrin ymdeimlad o falchder lleol. Er enghraifft, gall creu gardd gymunedol arwain at ffurfio grwpiau gwirfoddoli sy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd, gan nodi newid mewn ymddygiad cymdeithasol a meithrin gallu sefydliadol cymunedol (gweler, What Works Centre for Wellbeing, 2021).

Mae'r arolwg o gyfranogwyr LPfN ar gyfer y gwerthusiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau tebyg i'r rhai yn y llenyddiaeth ehangach. Roedd ymatebwyr o'r farn bod cymryd rhan mewn prosiect LPfN wedi bod o fudd iddynt mewn amrywiaeth o ffyrdd, a gwella llesiant meddyliol oedd y budd a nodwyd amlaf (74% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn, N=14). Roedd y manteision cyffredin eraill a nodwyd yn cynnwys ennill gwybodaeth neu sgiliau newydd fel garddio (63%), cwrdd â phobl newydd neu wahanol (59%), a gwella iechyd corfforol (49%).

Mae'r canfyddiadau cadarnhaol hyn yn cefnogi damcaniaeth newid y rhaglen. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi unwaith eto bod ymatebwyr yr arolwg eisoes yn defnyddio mannau gwyrdd/naturiol yn rheolaidd cyn ymuno â LPfN, sy'n awgrymu ei bod yn debygol bod llawer ohonynt eisoes yn profi rhai o'r manteision hyn cyn iddynt gymryd rhan. O'r herwydd, unwaith eto, efallai fod cymryd rhan mewn prosiect LPfN wedi gwella neu ddwysáu'r canlyniadau hyn, yn hytrach na chreu rhai cwbl newydd i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr. Ond, fel y nodwyd yn flaenorol, nodi nid yw hyn yn awgrymu nad oedd unrhyw ganlyniadau cadarnhaol i'r grŵp hwnnw. Fel y trafodir ymhellach yn nes ymlaen, nododd yr arolwg fod cyfranogwyr wedi

datblygu sgiliau newydd ac y gallai eu dealltwriaeth o fanteision mannau gwyrdd/naturiol fod wedi datblygu oherwydd eu cyfranogiad. Daw'r dyfyniadau canlynol o ymateb i arolwg ac maent yn dangos y canfyddiad hwn:

> “Roeddwn i'n ymwybodol iawn o'r mannau gwyrdd a naturiol yn yr ardal, ond mae'r prosiect wedi agor fy llygaid i a llygaid llawer o bobl eraill i'r posibiliadau o ran sut mae gwella'r mannau hyn a'u defnyddio i wella cysylltiad â natur ac i wella llesiant meddyliol a chorfforol.” Gwirfoddolwr prosiect (ymateb i'r arolwg)

Roedd y trafodaethau gyda chyfranogwyr yn ystod ymweliadau safle yn tynnu sylw pellach at amrywiaeth o gymhellion a manteision personol a brofwyd gan y rhai dan sylw, gyda themâu'n ymddangos yn gyson ar draws gwahanol fathau o brosiectau. Yn aml, mae'r manteision hyn yn adlewyrchu dylanwad cyfunol bod yn yr awyr agored, cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol, a chysylltu ag eraill.

Cysylltiad cymdeithasol oedd y budd a gafodd ei grebwyll amlaf yn ystod trafodaethau wrth ymweld â safleoedd. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau, a theimlo'n rhan o gymuned, a allai fod yn gymhelliant posibl i gymryd rhan. Trafodir hyn yn Rhan 2 yr adran hon.

> “Y cwmni, llesiant, mae bod yn yr awyr agored yn dda i fy iechyd meddwl, y ffaith ein bod ni'n gwneud rhywbeth da i helpu ac mae'n dda pan fydd pobl yn diolch i ni am yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae'n fy nghymell i fynd allan o'r tŷ ac rydw i wedi gwneud ffrindiau da." Cyfranogwr prosiect

> “Dau beth, cwmni da, pobl wych sy'n gweithio'n galed a gweld y gwahaniaeth mae ein gwelliannau'n ei wneud.' Cyfranogwr prosiect

I rai, roedd y rhyngweithio hwn yn helpu i leihau teimladau o unigrwydd ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn.

> "Mae wedi gwneud i mi deimlo’n fwy hyderus i gymdeithasu ychydig yn fwy, doeddwn i ddim yn cymdeithasu llawer cynt ac yn aros fy ystafell y rhan fwyaf o'r amser. Mae wedi cynyddu fy nghymhelliant i godi yn y bore, dwi'n gwneud fy ngorau i osod fy larwm a chodi'n gynnar, mae'n sicr wedi helpu gyda hynny." Cyfranogwr prosiect

> "Rydyn ni i gyd yn deulu mawr mewn gwirionedd. Rydyn ni i gyd yn helpu ein gilydd pan fydd angen rhywbeth arnon ni ac mae'n rhywle lle gallwch chi ddod i leisio eich pryderon a siarad â phobl. Rydyn ni'n sylwi pan nad yw pobl wedi bod lawr i'r safle a fyddai yno fel arfer ac rydyn ni'n eu ffonio i wneud yn siŵr eu bod nhw'n iawn. Rydyn ni’n gofalu am ein gilydd.” Cyfranogwr Prosiect

> "Mae’r cwmni’n golygu cymaint i mi ac i fy mab sydd ag anawsterau dysgu. Mae bywyd yn gallu bod yn eithaf unig i'r ddau ohonom ni ac felly mae'n golygu fy mod i’n gallu mynd allan a chwrdd â phobl a gwneud gweithgaredd gyda'n gilydd." Cyfranogwr prosiect

Roedd dysgu sgiliau newydd yn thema gref arall. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn ennill gwybodaeth ymarferol am arddio, plannu a rheoli cynefinoedd, ac yn magu hyder wrth ddefnyddio offer a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd. Roedd y profiadau hyn yn aml yn gysylltiedig â chyfranogwyr hefyd yn teimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth a'u bod wedi tyfu'n bersonol.

> “Cwrdd â phobl eraill, a heddiw fel dysgwr Cymraeg dwi'n dysgu termau Cymraeg am arddio ac yn dysgu pethau eraill hefyd.” Cyfranogwr prosiect

> “Roeddwn i eisiau dysgu am arddio a bod allan o'r tŷ yn gwneud rhywbeth, yn gweld pobl yn y gymuned.” Cyfranogwr prosiect

> “Dydw i erioed wedi bod yn ymarferol, ac mae hyn wedi rhoi mwy o hyder i mi wneud pethau fel hyn.” Cyfranogwr prosiect

Adroddwyd yn eang am fanteision i lesiant meddyliol, gyda chyfranogwyr yn nodi bod treulio amser yn yr awyr agored a chymryd rhan mewn gweithgarwch ystyrlon wedi helpu i leihau eu straen a gwella eu hwyliau. Roedd rhai yn disgrifio’r sesiynau hyn fel rhan hanfodol o'u strategaethau ymdopi ar gyfer gorbryder neu iselder.

> "Maen nhw wedi fy newid, rydw i wedi cael croeso cynnes. Fe gawson nhw amlinelliad byr o fy iechyd meddwl a doedd dim ots. Maen nhw wedi gwneud i mi deimlo ychydig yn well amdanaf i fy hun, dwi'n awtistig hefyd. Mae bod yn yr awyr agored yn gwneud i mi deimlo’n hapusach." Cyfranogwr prosiect

> “Mae bod yn yr awyr agored yn dda i fy iechyd meddwl...ac mae'n dda pan fydd pobl yn diolch i ni am yr hyn rydyn ni'n ei wneud.” Cyfranogwr prosiect

> “Rydw i'n gweithio ar y ward ac mae'n braf mynd oddi yno, mae'n heddychlon yma gan fod y ward mor brysur.” Cyfranogwr prosiect

Soniwyd yn eang hefyd am fanteision i iechyd corfforol, yn enwedig mewn perthynas ag ymarfer corff ac awyr iach. I rai, roedd yr agwedd gorfforol ar wirfoddoli yn ysgogydd pwysig.

> “Mae'n ymarfer corff da... yn ogystal â chyfle i glirio a gwneud camau.” Cyfranogwr prosiect

Yn olaf, siaradodd grŵp mawr o gyfranogwyr am ymdeimlad o bwrpas a chymhelliant, gan ddisgrifio'r boddhad o gyfrannu at rywbeth cadarnhaol i'w cymuned a'r amgylchedd.

> “Rydyn ni'n mynd allan ac yn teimlo ein bod ni'n gwneud rhywbeth defnyddiol i fyd natur.” Cyfranogwr prosiect

> “Teimlo eich bod chi wedi cyflawni rhywbeth ar ôl gorffen pethau.” Cyfranogwr prosiect

Roedd pob un o'r uchod yn themâu cryf ac roedd cyfranogwyr yn adrodd yn eang arnynt yn ystod yr ymweliadau safle. Er bod angen nodi cyfyngiadau'r ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn, mae'r canfyddiadau'n cael eu hategu gan adroddiadau cyfranogwyr a thystiolaeth ymchwil ehangach sy'n gadarnhaol.

## Canlyniadau ar gyfer cymunedau amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol

Yn aml, mae ymchwil wedi tynnu sylw at wahaniaethau o ran mynediad at natur ac ymgysylltu â natur ar draws gwahanol grwpiau demograffig. Mae ymwelwyr â safleoedd amgylcheddol yn fwy tebygol o fod yn wyn ac o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch, yn aml oherwydd eu bod yn agosach at fannau gwyrdd a bod ganddynt lai o rwystrau ariannol neu logistaidd (gweler Groundwork UK, 2021, Natural England, 2017 a'r Arts Council England, 2021). Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru 2024 yn tynnu sylw at y ffaith nad oes gan 'bobl yng Nghymru fynediad cyfartal at natur a mannau gwyrdd,' gydag unigolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn aml yn wynebu'r rhwystrau mwyaf ond hefyd dyma'r garfan a fyddai'n elwa fwyaf ohonyn nhw. Ar ben hynny, dangosodd data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019 fod llawer llai o unigolion sy'n profi amddifadedd materol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored (70%) o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn profi amddifadedd (84%) (noder nad yw data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y cwestiwn hwn am weithgareddau hamdden yn yr awyr agored).

Cafodd y rhaglen LPfN ei datblygu i ddechrau i dargedu ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig at natur, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig. Fodd bynnag, mae'r cylch gwaith hwn wedi ehangu dros amser i gynnwys gwella a chreu mannau gwyrdd, lle bo hynny'n hygyrch, mewn rhannau eraill o Gymru.

Roedd y cynllun Pecynnau Cymunedau yn rhoi blaenoriaeth benodol i brosiectau sydd â chyfranogiad cymunedol cryf, a threfi, dinasoedd, ardaloedd a mannau difreintiedig heb fawr ddim mynediad at natur, os o gwbl. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad interim, defnyddiodd y panel a sefydlwyd i adolygu ceisiadau am gymorth Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) at y diben hwn gan flaenoriaethu ceisiadau o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Roedd data a oedd ar gael ar gyfer y grantiau a ddyfarnwyd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 yn dangos bod 35% o'r grantiau wedi cael eu dyfarnu i grwpiau yn y 30% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Y cynllun sydd wedi'i dargedu'n fwyaf clir at gymunedau amrywiol a chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yng Nghymru yw Chwalu Rhwystrau, sy'n darparu cyllid refeniw i gefnogi prosiectau i weithio gyda'r cymunedau hynny. Mae'r prosiectau sy'n cael eu cefnogi yn cael eu trafod yn yr adroddiad interim, gan gynnwys un o'r grantiau mwyaf a roddwyd i brosiect a oedd yn ceisio gwella iechyd meddwl a chydlyniant cymunedol ymysg grwpiau ethnig lleiafrifol drwy weithgareddau cynaliadwy sy'n seiliedig ar natur. Roedd y grant yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr y prosiect a ddenodd dros 1,000 o gyfranogwyr i fod yn rhan o weithgareddau fel lleihau gwastraff cartrefi, hamdden yn yr awyr agored, ac ymweliadau â safleoedd treftadaeth ddiwylliannol.

Nid oedd yr arolwg yn gallu ymgysylltu â digon o gyfranogwyr mewn prosiectau a gefnogir gan y cynllun Chwalu Rhwystrau i gynnal unrhyw ddadansoddiad penodol ar gyfranogwyr. Roedd nifer y prosiectau Chwalu Rhwystrau lle cynhaliwyd ymweliadau safle (2 ymweliad a chyfweliad ag 8 o gyfranogwyr) hefyd yn fach, sy'n golygu bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr y siaradwyd â nhw wrth ymweld

â'r safleoedd prosiect hynny themâu tebyg i'r rhai a drafodwyd yn gynharach yn yr adran, fel cysylltiad ag eraill a manteision i'w hiechyd.

Dyma enghreifftiau o'r sylwadau a wnaed:

> “Mae'n gysylltiad cymdeithasol hefyd gan fy mod i'n newydd i'r ardal...gallwch weld bod llawer o gariad at y gerddi.” Cyfranogwr prosiect
>
> “Rydw i'n eithaf newydd i'r gymuned, mae ar gyfer fy iechyd meddwl... i helpu gyda fy iselder a theimlo'n unig.” Cyfranogwr prosiect
>
> “[Mae cymryd rhan yn y gweithgaredd] wedi cynyddu fy ngwybodaeth am arddio, bod yn fwy egnïol a chymryd mwy o ran yn y gymuned.” Cyfranogwr prosiect

Mae hyn yn rhoi cipolwg cadarnhaol ar fanteision prosiectau sydd wedi'u hanelu'n benodol at y rheini oedd â mynediad cyfyngedig at natur yn flaenorol.

Er nad yw'r ymchwil sylfaenol ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi gallu archwilio’n gadarn y canlyniadau a gynhyrchwyd yn benodol gan brosiectau mewn cymunedau amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, mae llenyddiaeth ymchwil yn canfod bod manteision ymyriadau sy'n seiliedig ar natur yn arbennig o amlwg yn y cymunedau hyn. Mae sylfaen dystiolaeth gynyddol yn cysylltu mwy o gysylltiad â mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol â chanlyniadau gwell i iechyd corfforol a meddyliol, yn enwedig ar gyfer cymunedau sy'n profi anghydraddoldebau iechyd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2021).

Yn aml, mae effeithiau mannau gwyrdd trefol ar iechyd a llesiant yn fwyaf amlwg mewn cymunedau sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Canfu adolygiad gan Sefydliad Iechyd y Byd (2017) fod y gwelliannau mwyaf sylweddol mewn iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â chydlyniant cymdeithasol, fel arfer yn digwydd ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol is, lle mae amodau iechyd ac amgylcheddol sylfaenol yn aml yn waeth. Mae hyn yn awgrymu y gall hyd yn oed ymyriadau ar raddfa fach, fel creu parc newydd mewn ardal boblog iawn yng nghanol dinas, gael mwy o effaith ar lefelau straen a llesiant cyffredinol preswylwyr na datblygiadau tebyg mewn ardaloedd mwy cyfoethog.

Mae canlyniadau gweithgarwch corfforol hefyd yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destunau hyn, gan y gall mwy o fynediad at fannau gwyrdd gefnogi ymdrechion i leihau gordewdra a chyflyrau iechyd cysylltiedig sy'n fwy cyffredin mewn cymunedau incwm isel. Mae rhagor o dystiolaeth yn cysylltu mynediad at fannau gwyrdd newydd neu well â llai o straen a gwelliannau mewn hwyliau ymysg y rheini heb lawer o gyfleoedd i ymgysylltu â natur (er enghraifft, Geary ac eraill, 2023).

Felly, mae'r ychydig o waith ymgysylltu sylfaenol a wnaed â safleoedd Chwalu Rhwystrau, ar y cyd â'r llenyddiaeth sydd ar gael, yn dangos bod gweithgareddau fel y rheini sy'n cael eu darparu gan LPfN yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn mewn cymunedau amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu y gall gwneud prosiectau'n fwy gwyrdd mewn ardaloedd o'r fath wella cydlyniant cymdeithasol, gyda mannau gwyrdd a rennir yn gweithredu fel lleoliadau niwtral lle gall pobl o wahanol gefndiroedd gysylltu a rhyngweithio.

## 3.2 Rhan 2: Mecanweithiau: Sut mae prosiectau LPfN wedi cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a nodwyd, a pham?

Mae'r drafodaeth nawr yn symud ymlaen i ystyried sut mae'r canlyniadau a nodwyd mewn prosiectau LPfN wedi cael eu cynhyrchu, a pham.

Cysyniad allweddol yn y dull gwerthuso realaidd, sy'n sail i'r dadansoddiad hwn, yw nad yr ymyriad ei hun sy'n achosi canlyniadau'n uniongyrchol. Yn hytrach, mae canlyniadau'n deillio o ymatebion unigolion i'r adnoddau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ymyriad—yn yr achos hwn, prosiect LPfN. Gelwir y cyfuniad o adnoddau rhaglen ac ymateb unigolyn i'r adnoddau yn 'fecanwaith', a'r mecanwaith hwn sy'n pennu'r canlyniad yn y pen draw. Mae'r drafodaeth ganlynol yn asesu'r dystiolaeth a gasglwyd am brosiectau LPfN a'u canlyniadau drwy'r lens hon, gan geisio nodi'r mecanweithiau a arweiniodd at y canlyniadau cadarnhaol a drafodwyd yn flaenorol.

Mae 'datganiadau esboniadol' wedi'u cynnwys ar ddiwedd pob is-adran. Mae'r rhain yn rhoi crynodeb ac esboniad cryno o sut a pham y disgwylir i ymyriad arwain at ganlyniadau penodol, yn seiliedig ar dybiaethau sylfaenol am gyd-destun, mecanweithiau a newid. Fel yr esbonnir yn fanylach yn Atodiad B, un o'r dulliau a ddefnyddir i gyflwyno datganiad o'r fath yw "os...yna...oherwydd", sef yr hyn a ddefnyddir isod. Mae fersiynau manylach ar gael yn Atodiad C.

Cofiwch, pan gyfeirir at 'gyfranogwyr prosiect' yn y drafodaeth isod, mae'r term hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gysylltiedig fel buddiolwyr, cefnogwyr, ymwelwyr â'r safle, a phobl eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

### Deall cymhellion cyfranogwyr a darparu'r cyfleoedd cywir

Mae deall beth sy'n cymell pobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd neu brosiect yn helpu i egluro pwy sy'n ymgysylltu a pham, gan ddatgelu a yw rhaglen yn cyrraedd ei chynulleidfaoedd arfaethedig ac a oes ganddi'r potensial i gyflawni ei nodau. Mae hyn yn awgrymu bod alinio cymhellion cyfranogwyr â'r cyfleoedd a ddarperir gan brosiect yn fecanwaith allweddol i gyflawni canlyniadau LPfN. Pan fydd cymhellion yn cyfateb i'r cyfleoedd sydd ar gael—boed hynny'n unigol neu'n sefydliadol—mae cyfranogiad a chanlyniadau cadarnhaol yn fwy tebygol.

Am y rheswm hwn, mae deall cymhellion yn hanfodol i ddylunio prosiectau sy'n denu ac yn cadw cyfranogwyr. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu bod prosiectau'n fwyaf effeithiol pan fyddant yn cynnig cyfleoedd sy'n teimlo'n ystyrlon - trafodir hyn ymhellach isod. Heb ymgysylltu'n llwyddiannus â phobl sy'n fodlon ac yn gallu cymryd rhan, ni fydd unrhyw gamau gweithredu'n digwydd, ni fydd safleoedd yn cael eu datblygu, ac ni fydd y canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn arbennig o bwysig i brosiectau LPfN sy'n gallu dibynnu ar gyfranogwyr a gweithgareddau corfforol i greu a gwella mannau gwyrdd neu naturiol.

Roedd yr arolwg yn gofyn i gyfranogwyr y prosiect nodi beth oedd yn eu cymell i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys mannau gwyrdd a naturiol (N=69).

**Tabl 3.3: Ymateb i'r cwestiwn: Beth sy'n eich cymell i wirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys mannau gwyrdd a naturiol? Yr opsiynau a ddarparwyd a'r ymatebion a ganiatawyd**

| Opsiwn | Nifer | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Gwella fy ardal leol | 56 | 81% |
| Dwi'n mwynhau treulio amser yn yr awyr agored | 55 | 80% |
| Diddordeb mewn rhoi'n ôl i'r gymuned | 53 | 77% |
| Gwella fy iechyd meddyliol a/neu gorfforol | 44 | 64% |
| Awydd i ddysgu mwy am natur a chynaliadwyedd | 42 | 61% |
| Cwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd yn y gymuned | 37 | 54% |
| Brwdfrydedd dros gadwraeth amgylcheddol | 36 | 52% |
| Dysgu sgiliau newydd | 30 | 43% |
| Awydd i dyfu fy mwyd fy hun | 27 | 39% |
| Diffyg mannau gwyrdd a naturiol o ansawdd da yn fy ardal leol | 9 | 13% |

N=69 (cwestiwn i wirfoddolwyr a'r rhai a gafodd eu cefnogi yn unig)

Y tri phrif gymhelliant oedd gwella'r ardal leol (81%), mwynhau amser yn yr awyr agored (80%), a rhoi'n ôl i'r gymuned (77%). Mae hyn yn awgrymu bod prosiectau LPfN (neu'r rheini yn y sampl gwerthuso o leiaf) yn arbennig o lwyddiannus o ran denu pobl sydd eisiau cyfrannu at eu cymunedau lleol ar yr un pryd â mwynhau manteision personol gweithgareddau awyr agored. Yn bwysig efallai, mae'r cymhellion cymunedol a phersonol hyn yn ymddangos yn gryfach na chymhellion amgylcheddol yn unig ar gyfer y grŵp hwn.

Y mecanwaith sy'n cael ei awgrymu gan y dystiolaeth hon yw'r cyfle y mae prosiectau LPfN yn ei roi i gyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn gwella'r ardal leol, sy'n cyd-fynd â chymhelliant cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

Roedd llesiant personol hefyd yn bwysig, gyda 64% yn cael eu cymell gan fanteision i iechyd corfforol a meddyliol a 54% yn ceisio cwrdd â phobl newydd. Roedd cymhellion dysgu yn nodedig er eu bod ychydig yn fwy cymysg ar draws cyfranogwyr, gyda 61% eisiau dysgu am natur a chynaliadwyedd a 43% yn gobeithio datblygu sgiliau newydd.

Roedd cadwraeth amgylcheddol yn is fel prif gymhelliant (52%), sy'n dangos bod manteision cymunedol a phersonol yr un mor bwysig o leiaf i gyfranogwyr â manteision amgylcheddol. Y cymhelliant â'r sgôr isaf oedd diffyg mannau gwyrdd a naturiol o ansawdd da yn lleol (13%), a allai adlewyrchu lleoliadau ymatebwyr yr arolwg (fel y nodwyd yn Adran 2, roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr wedi'u lleoli y tu allan i leoliadau trefol).

Yn ystod ymweliadau â safleoedd, roedd themâu clir a chyson yn codi wrth i gyfranogwyr ddweud pam eu bod yn cymryd rhan, gan gynnwys y boddhad o wella mannau lleol a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, gan adleisio prif gymhellion yr arolwg.

> "Mae gwirfoddoli yn ffordd o roi rhywbeth yn ôl, dwi wedi rhyfeddu at yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni." Cyfranogwr prosiect

> "Gwarchod a gwella'r amgylchedd a'r bywyd gwyllt." Cyfranogwr prosiect

Roedd y manteision personol a nodwyd yn yr adran canlyniadau—gan gynnwys datblygu cysylltiadau cymdeithasol, dysgu sgiliau newydd, a gwella llesiant meddyliol—hefyd yn gymhellion clir i gymryd rhan.

Mae hyn yn awgrymu mai'r mecanwaith sydd ar waith yma yw creu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol—drwy weithgareddau grŵp, gwirfoddoli a digwyddiadau cymunedol—sy'n gwella llesiant, lefelau cadw, ac ymdeimlad o berthyn ymysg cyfranogwyr. Mae'r cysylltiadau cymdeithasol hyn yn cefnogi llesiant unigolion a gallant hefyd, os cânt eu cynnal, fod yn sail i stiwardiaeth tymor hwy a chydlyniant cymunedol.

Mae'n ddiddorol ac yn bwysig nodi'r berthynas ymddangosiadol rhwng cymhellion a chanlyniadau a nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg. Mae'r data'n awgrymu bod y pethau a oedd fwyaf tebygol o gymell pobl i gymryd rhan mewn prosiectau LPfN (fel gwella'r ardal leol, mwynhau amser yn yr awyr agored, a rhoi'n ôl i'r gymuned) yn cyd-fynd yn agos â'r canlyniadau a nodwyd amlaf (gwella ymgysylltiad cymunedol, gwella llesiant, a mwy o gysylltiadau cymdeithasol).

Mae'r aliniad hwn yn awgrymu bod prosiectau LPfN yn llwyddo i gyflawni'r hyn sydd bwysicaf i'w cyfranogwyr, gan atgyfnerthu gwerth deall a dylunio ar gyfer cymhellion cyfranogwyr. Mae hefyd yn awgrymu, pan fydd prosiectau'n gallu manteisio ar y cymhellion hyn, eu bod yn fwy tebygol o sicrhau canlyniadau ystyrlon a gwerthfawr i'r rhai sy'n cymryd rhan. Ond, gallai'r berthynas hon adlewyrchu'r ffaith bod y bobl yn y sampl wedi dewis cymryd rhan—gallai'r rheini sy'n cael eu cymell gan y ffactorau hyn fod yn fwy tebygol o gymryd rhan a rhoi gwybod am ganlyniadau cadarnhaol yn y meysydd hyn.

Fodd bynnag, cefnogir y canfyddiadau hyn gan ymchwil arall. Er enghraifft, mae pwysigrwydd teimlo cysylltiad ag amgylchedd lleol wedi cael ei amlygu mewn ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (2019), a ganfu fod ymdeimlad cryf o ymlyniad â lle yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd y bydd unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n diogelu ac yn gwella eu hardal leol dros amser. Mae'r cysylltiad hwn â lle yn cefnogi llesiant unigol a chyfunol ac yn sail i stiwardiaeth amgylcheddol tymor hwy a datblygu cymunedol cynaliadwy. Gall diffyg cysylltiad â natur, neu ag amgylchedd lleol rhywun, leihau ymgysylltiad unigolion a chymunedau â materion amgylcheddol (gweler Lynette ac eraill, 2024).

| |
|---|
| Datganiad esboniadol:<br><br>Os yw prosiectau'n darparu cyfleoedd sy'n cyd-fynd â chymhellion cyffredin (gwella'r ardal leol, bod yn yr awyr agored, rhoi'n ôl), yna mae cyfranogiad a chanlyniadau gwerthfawr yn fwy tebygol, oherwydd bod pobl yn ystyried bod y cynnig yn ystyrlon ac yn werth eu hamser. |

## Ymgysylltu â'r cyfranogwyr 'cywir' a chaniatáu i brosiectau ddatblygu

Drwy gydol yr adroddiad hwn, un thema sy'n codi dro ar ôl tro yw pwysigrwydd deall proffil y rheini sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau LPfN. Mae ymgysylltu â'r cyfranogwyr 'cywir' yn fecanwaith allweddol oherwydd mae'n sicrhau bod prosiectau'n cyrraedd y rhai sy'n gallu elwa fwyaf ond hefyd y rhai sy'n gallu cyfrannu fwyaf at gyflawni nodau'r prosiect.

Bydd y diffiniad o'r cyfranogwr 'cywir' (neu, yn wir, y gymuned gywir) yn amrywio yn dibynnu ar amcanion penodol y prosiect a/neu'r cynllun. Er enghraifft, os mai'r amcan, fel sy'n wir am

brosiectau'r cynllun Chwalu Rhwystrau, yw ymgysylltu â chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd o ran mynediad at natur, mae angen 'targedu' unigolion o'r proffil hwnnw. Mae hefyd angen cynllunio prosiectau a gweithgareddau gan gadw proffil cyfranogwyr mewn cof. Mewn achosion eraill, efallai y bydd mwy o ffocws ar wella safle penodol neu, yn wir, ar greu safle newydd. Yn yr achosion hynny, efallai y bydd angen i brosiect ganolbwyntio, yn y lle cyntaf o leiaf, ar ymgysylltu â (neu 'ddenu') cyfranogwyr/gwirfoddolwyr a all helpu i gyflawni'r amcan hwnnw—y rheini a all helpu i wneud y gwaith angenrheidiol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y gwerthusiad yn awgrymu bod y bobl hynny'n debygol o gael eu cymell yn aml gan awydd i wneud gwahaniaeth yn eu cymuned leol. Unwaith eto, mae prosiectau'n debygol o fod yn fwy effeithiol os yw'r gweithgareddau (gan gynnwys strategaethau ymgysylltu) wedi'u cynllunio gyda'r bobl hynny mewn golwg.

Un o ganfyddiadau pwysig y gwerthusiad hwn ar gyfer y sampl o unigolion a gymerodd ran yn y gwerthusiad yw bod gan y cyfranogwyr safbwyntiau cadarnhaol eisoes am fyd natur a'r amgylchedd ar y cyfan. Os mai'r prif amcan yw cynyddu cyfran y boblogaeth sydd â safbwyntiau cadarnhaol, efallai nad yr unigolion hyn yw'r grŵp targed delfrydol (er bod manteision i atgyfnerthu agweddau cadarnhaol, fel y trafodwyd yn gynharach). Efallai y bydd cyflawni'r amcan hwnnw'n gofyn am ddull gweithredu wedi'i dargedu'n well—gan ganolbwyntio ar brosiectau sy'n gallu ymgysylltu â'r rheini sydd â safbwyntiau negyddol neu ddifater ar hyn o bryd am fyd natur a'r amgylchedd. Mae'r un rhesymeg yn berthnasol os mai'r amcan yw cynyddu'r defnydd o fannau gwyrdd neu fannau naturiol ymysg y rhai nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd; mae angen targedu'r grwpiau hyn yn benodol. Roedd Chwalu Rhwystrau yn gynllun LPfN penodol a oedd yn ceisio gwneud hyn. Roedd adroddiad interim y gwerthusiad yn tynnu sylw at sut y dyfarnwyd cyllid Chwalu Rhwystrau i sefydliadau a oedd eisoes yn ymgysylltu â'r grwpiau penodol yr oeddent wedi bwriadu ymgysylltu â nhw.

Fodd bynnag, mae angen i brosiectau fodoli er mwyn cyflawni'r amcanion hyn—rhaid creu mannau gwyrdd neu fannau naturiol newydd, neu wella mynediad at fannau sy'n bodoli eisoes. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw ymgysylltu â'r rheini sydd fwyaf awyddus i gymryd rhan a chefnogi prosiect, sef, yn ôl y gwerthusiad, yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau LPfN ar hyn o bryd. Er bod cyfyngiadau i'r data a gesglir ar gyfer y gwerthusiad hwn, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod creu cyfleoedd i bobl gyfrannu at brosiectau sydd o fudd i'w cymuned leol yn ffordd effeithiol o ddenu unigolion o'r fath. Mae hefyd yn bwysig ystyried yr angen am safleoedd addas lle gall prosiectau ddigwydd, tybiaeth sylfaenol sy'n sail i'r cynllun LPfN.

Mae hefyd yn amlwg o astudiaethau achos y prosiect ac enghreifftiau a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn bod prosiectau LPfN yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol os byddant yn esblygu dros amser, gyda nifer o enghreifftiau yn yr adroddiad interim yn disgrifio sut roedd cyllid grant LPfN wedi cael ei ddefnyddio gan sefydliadau i fwrw ymlaen â'u hamcanion neu eu 'cenhadaeth' ehangach. Er enghraifft, efallai mai'r flaenoriaeth gychwynnol fyddai gwneud y gwaith ffisegol ac ymarferol sydd ei angen i wella mynediad i safle. Fodd bynnag, ar ôl gwneud y gwaith hwnnw, efallai y bydd y ffocws yn symud i ddenu defnyddwyr i'r safle, yn enwedig unigolion a grwpiau â chyfleoedd cyfyngedig yn flaenorol i ymgysylltu â mannau gwyrdd/naturiol. Felly, mae'n bwysig rhoi amser a chyfle i brosiectau ddatblygu, yn ogystal â gallu cefnogi prosiectau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau ar wahanol gamau yn eu

‘cenhadaeth’ ehangach. Mae’r llwybr cynnydd sydd ar gael yn y cynllun Pecynnau Cymunedol—o Becynnau Cychwynnol i Becynnau Datblygu—yn enghraifft dda o sut gellir cefnogi prosiectau a grwpiau i ddatblygu eu gweithgarwch. Dylid hefyd nodi’r potensial i grwpiau symud ymlaen i Grantiau Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth ar gyfer prosiectau mwy pan fyddai’r cynlluniau hynny ar agor.

Nodir yn aml mewn llenyddiaeth ymchwil bod ymyriadau’n fwy effeithiol pan fyddant yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o nodweddion y gynulleidfa darged, a’r ffactorau ymddygiad a hunaniaeth sy’n debygol o ddylanwadu ar ymgysylltu (gweler: Sefydliad Iechyd y Byd, 2017 a Public Health England, 2020).

Roedd data ar gael ar nifer y gwirfoddolwyr a oedd yn cymryd rhan mewn cynlluniau penodol (fel yr amlinellir yn yr adroddiad interim), gan ddarparu man cychwyn defnyddiol i ddeall ymgysylltiad â’r rhaglen. Fodd bynnag, roedd diffyg data cadarn ar nodweddion y cyfranogwyr hynny ac nid yw’r gwerthusiad wedi gallu mynd i’r afael â’r broblem. Byddai cryfhau'r data sydd ar gael am wirfoddolwyr a chyfranogwyr yn fwy cyffredinol fel rhan o unrhyw broses fonitro a gwerthuso yn y dyfodol yn galluogi dadansoddiad mwy llawn o bwy sy'n cymryd rhan mewn prosiectau LPfN ac ar draws y rhaglen, gan helpu i greu darlun cliriach o'i chyrhaeddiad a'i heffaith.

Datganiadau esboniadol:

- Os mai'r amcan yw newid agweddau ac ymddygiadau pobl sydd â safbwyntiau difater neu negyddol at fyd natur ar hyn o bryd, yna rhaid blaenoriaethu ymgysylltu ag unigolion yn y grŵp hwnnw, oherwydd fel arall, er bod gan gyfranogwyr gymhelliant cadarnhaol, maent eisoes yn tueddu i arddel safbwyntiau o blaid natur, gan gyfyngu ar y posibilrwydd o newid yn y garfan honno.

- Os yw camau cynnar y prosiect yn blaenoriaethu recriwtio cyfranogwyr sydd â'r sgiliau a'r argaeledd i gwblhau gwaith ffisegol safle (hyd yn oed os oes ganddynt safbwyntiau cadarnhaol eisoes), yna mae mannau gwyrdd/naturiol newydd neu well yn fwy tebygol o gael eu darparu'n effeithiol, oherwydd bod tasgau cychwynnol yn dibynnu ar lafur ymarferol ac ymdrech sy'n canolbwyntio ar y safle.

- Os bydd camau dilynol yn symud allgymorth yn fwriadol at grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu sydd wedi ymddieithrio, yna bydd defnydd, mynediad cyfartal ac effaith barhaus ar y gymuned yn cynyddu, oherwydd mae ymgysylltu wedi'i deilwra yn mynd i'r afael â rhwystrau ac yn gwahodd defnyddwyr newydd pan fydd safle'n barod.

- Os bydd prosiectau'n newid y gynulleidfa darged yn fwriadol dros amser—o adeiladwyr safle i ddefnyddwyr nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol—yna bydd y gwaith o greu safleoedd ac ymgysylltu'n deg yn gwella, oherwydd bydd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr yn cael eu hysgogi gan wahanol gyfleoedd ar wahanol gamau.

## Dull hyblyg, wedi'i deilwra

Gan adeiladu ar y drafodaeth uchod, mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod yr hyblygrwydd i deilwra gweithgareddau i anghenion lleol a nodweddion cyfranogwyr yn debygol o fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer llwyddiant yn LPfN. Mae'r gallu hwn i addasu, sy'n gysylltiedig â'r angen i ganiatáu i brosiectau ddatblygu a drafodwyd yn yr is-adran flaenorol, yn sbarduno mwy o berthnasedd, ymgysylltiad ac, yn y pen draw, canlyniadau mwy cadarnhaol.

Mae amrywiaeth eang o weithgareddau wedi cael eu cynnal mewn amrywiaeth o leoliadau fel rhan o LPfN fel y nodwyd gan yr ymchwil sylfaenol a drafodir yn yr adroddiad hwn ond hefyd drwy'r adroddiadau prosiect a'r astudiaethau achos a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad gwerthuso interim. Roedd yr ymweliadau safle eu hunain yn cynnwys gerddi cymunedol, mannau gwyrdd trefol, ardaloedd coetir, gerddi ysbytai, a phrosiectau adfer gwlyptiroedd neu natur. Roedd y gweithgareddau a welwyd yn cynnwys clirio ardaloedd a oedd wedi gordyfu, gosod grisiau neu feinciau, a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt. Mewn safleoedd eraill, roedd y cyfranogwyr yn gofalu am welyau uchel i blanhigion, yn plannu llysiau, ac yn cynnal a chadw rhandiroedd. Roedd rhai prosiectau'n cynnwys sesiynau grŵp strwythuredig, fel clybiau garddio, gweithdai crefft, a theithiau natur wedi’u tywys, ac roedd rhai eraill yn cynnig mannau mynediad agored i drigolion lleol eu defnyddio. Cafwyd enghreifftiau hefyd o brosiectau sy'n gysylltiedig â mentrau iechyd a llesiant, gan ddarparu amgylcheddau tawel ac adferol i staff ysbytai, cleifion ac ymwelwyr.

Fel y nodir yn yr adran canlyniadau, mae'r dystiolaeth yn dangos bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynhyrchu ar draws y lleoliadau a'r gweithgareddau amrywiol hyn sy'n cefnogi canfyddiadau'r astudiaethau achos a'r adroddiadau prosiect a adolygwyd yn yr adroddiad interim. Er nad yw’r gwahanol ddulliau wedi cael eu cymharu’n fanwl, mae hyn yn awgrymu felly nad oes un dull o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd gan LPfN. Yn wir, mae'r hyblygrwydd hwn i gymunedau (grwpiau/sefydliadau sydd wedi gwneud cais am gymorth LPfN) allu cyflawni amcanion y rhaglen mewn ffordd sydd hefyd yn cefnogi anghenion/cyfleoedd lleol yn debygol o fod yn fecanwaith pwysig.

Mae amrywiaeth eang o weithgareddau’n cael eu cefnogi gan y rhaglen LPfN, ac mae hyn yn deillio’n uniongyrchol o’i dyluniad anghyfarwyddol sy’n cael ei arwain gan y gymuned, y ffaith ei bod yn cael ei darparu drwy nifer o gynlluniau gydag amcanion penodol, a'i ffocws ar ddiwallu anghenion lleol amrywiol. Mae'r dull hwn hefyd wedi'i ddylunio i annog arloesi, cydweithio ac addasu i gyd-destunau lleol, gan alluogi'r rhaglen i gyfrannu at amrywiaeth eang o ganlyniadau ar gyfer natur a chymunedau. Er enghraifft, roedd yr adroddiad interim yn tynnu sylw at sut roedd prosiectau Partneriaeth Natur Lleol wedi adrodd ar addasu neu deilwra eu gweithgareddau i anghenion daearyddol ac ecolegol pob ardal, yn ogystal â thirwedd y gymuned leol a sefydliadau partner (gweler Adran 4.1 yr adroddiad interim).

Roedd ymchwil ehangach yn cefnogi'r canfyddiad hwn. Drwy ddeall y rhwystrau y mae unigolion neu gymunedau'n eu hwynebu wrth gysylltu â natur a'i diogelu, gellir teilwra ymyriadau'n fwy priodol. Er enghraifft, mae ymchwil i stiwardiaeth amgylcheddol drefol wedi canfod bod ymyriadau’n fwy llwyddiannus pan fyddant yn cydnabod ac yn cefnogi cysylltiad emosiynol unigolion â lle, yn ystyried rhwydweithiau cymdeithasol lleol, ac yn ymgysylltu â

chanfyddiadau o gadwraeth natur (Enqvist J., ac eraill, 2017). I'r gwrthwyneb, mewn lleoliadau mwy gwledig, adroddir yn aml y gall fod yn fwy effeithiol ymgysylltu â thirfeddianwyr, gweithio drwy sefydliadau lleol dibynadwy, a darparu gwybodaeth glir am fanteision amgylcheddol ac anfanteision canfyddedig cymryd rhan (Lute M.L., ac eraill, 2018). Er nad oes model cyffredinol sy'n gweithio ar draws pob cyd-destun, mae'n bwysig bod ymyriadau'n hyblyg ac yn cael eu dylunio i weithio gyda'r gynulleidfa darged i feithrin ymgysylltiad a chyfrifoldeb amgylcheddol hirdymor.

Datganiadau esboniadol:

- Os yw prosiectau LPfN yn cael yr hyblygrwydd i deilwra gweithgareddau i anghenion lleol a nodweddion cyfranogwyr, yna maent yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau perthnasol a chadarnhaol, oherwydd mae'r gallu i addasu yn sicrhau bod ymyriadau'n cyd-fynd â blaenoriaethau, rhwystrau a chyfleoedd lleol, gan gynyddu ymgysylltiad ac effeithiolrwydd.
- Os gall cymunedau ac ymgeiswyr ddylunio prosiectau sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a'u hanghenion eu hunain, yna bydd amrywiaeth ehangach o weithgareddau a lleoliadau yn dod i'r amlwg, oherwydd mae dull anghyfarwyddol sy'n cael ei arwain gan y gymuned yn annog arloesi, cydweithio ac addasu i gyd-destunau lleol.
- Os caniateir i brosiectau ddatblygu dros amser mewn ymateb i adborth gan gyfranogwyr ac amgylchiadau lleol sy'n newid, yna mae ymgysylltu ac effaith yn fwy tebygol o gael eu cynnal, oherwydd gall prosiectau sy'n datblygu barhau i fod yn berthnasol a pharhau i ddiwallu anghenion eu cymunedau.

## Cymysgedd o weithgareddau a galluogi cyfranogwyr i symud ymlaen

Mae amrywiaeth o fanteision personol a nodwyd gan y gwerthusiad wedi cael eu nodi yn yr adran canlyniadau, gan gynnwys datblygu cysylltiadau cymdeithasol, dysgu sgiliau newydd, a gwella llesiant meddyliol. Mae’r data’n awgrymu bod y rhain wedi cael eu cynhyrchu drwy greu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol—drwy weithgareddau grŵp, gwirfoddoli a digwyddiadau cymunedol—sy'n gwella llesiant, lefelau cadw ac ymdeimlad o berthyn ymysg cyfranogwyr. Y gweithgareddau hyn, ynghyd â chymhelliant yr unigolyn i fynd i'r afael â'r materion hyn, yw'r mecanwaith yma. Mae'r cysylltiadau cymdeithasol hyn yn cefnogi llesiant unigolion a gallant hefyd, os cânt eu cynnal, fod yn sail i stiwardiaeth tymor hwy a chydlyniant cymunedol.

Mae ymchwil gyda chyfranogwyr ar gyfer yr astudiaeth hon hefyd wedi canfod bod canlyniadau ychwanegol yn cael eu cynhyrchu pan fydd unigolion yn gallu symud ymlaen o'u cyfranogiad cychwynnol â phrosiect, (fel ymgymryd â thasgau cynnal a chadw sylfaenol ar y safle) i weithgareddau mwy datblygedig, fel cymryd rhan mewn cwrs hyfforddi ar gadwraeth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg pan oedd prosiectau'n cyfuno gweithgarwch ymarferol â chyfleoedd dysgu cysylltiedig. Mae hyn yn debygol o fod yn bwysig yn enwedig o ran creu canlyniad cadarnhaol ymysg cyfranogwyr sydd eisoes â safbwyntiau cadarnhaol am fyd natur a'r amgylchedd, a oedd yn gyffredinol wir am y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ar gyfer y gwerthusiad hwn. Mae hyn yn awgrymu, yn yr achosion hyn, y gall prosiectau adeiladu ar y sylfaen honno a chefnogi’r broses o gryfhau safbwyntiau a chynyddu ymddygiad

cadarnhaol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y gwerthusiad hwn wedi dangos bod hyn yn bosibl.

Y mecanwaith sy'n debygol o fod ar waith yma yw'r cyfuniad o weithgareddau ymarferol a chyfleoedd dysgu a ddarperir gan brosiectau LPfN, sy'n sbarduno newid ymysg rhai cyfranogwyr o ddiddordeb cyffredinol i ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb dros eu hamgylchedd lleol. Er enghraifft, mewn un prosiect, roedd darganfod rhywogaeth warchodedig wedi cymell cyfranogwyr i ymgymryd â hyfforddiant arbenigol a mabwysiadu rôl stiwardio anffurfiol, gan fonitro cynefinoedd a rhannu gwybodaeth ag eraill yn rheolaidd.

Datganiadau esboniadol:

- Os yw prosiectau'n creu cyfleoedd cynhwysol a rheolaidd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol, yna mae llesiant ac ymgysylltu parhaus yn gwella, oherwydd bod ymdeimlad o berthyn a phwrpas cyffredin yn gwneud cyfranogiad yn werth chweil ac yn arferol.

- Os yw gweithgareddau ymarferol yn cael eu paru â dysgu, yna mae cyfranogwyr yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau stiwardiaeth, oherwydd bod hyder, sgiliau ac ymdeimlad o gyfrifoldeb yn cael eu meithrin.

- Os yw prosiectau'n darparu llwybrau dilyniant (ee o gynnal a chadw sylfaenol i rolau hyfforddi neu arwain achrededig), yna mae sgiliau, hyder a stiwardiaeth hirdymor yn cryfhau, oherwydd gall cyfranogwyr ddyfnhau eu cyfranogiad a gweld datblygiad personol.

## Capasiti a chyd-destun lleol

Yn yr adroddiad interim, nodwyd bod meithrin gallu yn fecanwaith craidd ac yn ganlyniad allweddol i'r rhaglen LPfN. Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r ddamcaniaeth newid, nodwyd bod sefydliadau lleol—yn enwedig grwpiau cymunedol— yn ganolog i gyflawni canlyniadau rhaglenni, gyda'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u rhwydweithiau sefydledig yn galluogi darpariaeth effeithiol ac effaith barhaus. Yn y bôn, mae'r cynlluniau LPfN yn cael eu harwain gan y galw, sy'n golygu eu bod yn dibynnu ar allu sefydliadau lleol i ymgysylltu â'r cynlluniau a chyflwyno ceisiadau am gymorth. Os na fydd sefydliadau'n ymgysylltu ac yn gwneud cais, ni fydd unrhyw weithgaredd yn cael ei gynnal. Felly, mae gallu sefydliadau lleol i wneud cais am gymorth a chyflawni prosiectau'n effeithiol yn hanfodol ac mae'n debygol o fod yn fecanwaith allweddol yn y rhaglen.

Roedd capasiti sefydliadau lleol hefyd yn bwnc trafod ar gyfer yr adroddiad interim ymysg staff y cynllun o ran 'ffactorau llwyddiant allweddol' prosiectau LPfN, a oedd yn cynnwys pwysigrwydd:

- Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y sefydliad cyflawni (neu unigolyn allweddol) yn gyffredinol
- Gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned leol, gan gynnwys gwirfoddolwyr lleol
- Cysylltiadau â sefydliadau lleol eraill a'r gallu i gydweithio â nhw.

Roedd gweithgareddau meithrin gallu yn nodwedd mewn nifer o gynlluniau LPfN, gan gynnwys y Partneriaethau Natur Lleol, Meithrin Gallu Cymunedau Arfordirol, a Chwalu Rhwystrau, gan ddarparu hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd i gydweithio. Roedd staff Cadwch Gymru'n Daclus hefyd yn cefnogi grwpiau i ddatblygu a gweithredu prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan Becynnau Cymunedol. Roedd y gweithgareddau hyn yn ceisio cryfhau gallu mudiadau lleol i gyflawni a chynnal prosiectau, er bod y gwerthusiad yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau prosiectau ar lefel gymunedol nag ar y broses meithrin gallu ei hun.

Fodd bynnag, nododd yr arolwg rai canlyniadau yn ymwneud â chymorth i feithrin gallu:

- Roedd cymorth yn darparu adnoddau neu offer defnyddiol na fyddent wedi bod ar gael fel arall, yn ôl:
    - 13 o'r 14 o ymatebwyr prosiect LNP
    - 5 o'r 5 o ymatebwyr y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol
    - 5 o'r 9 o ymatebwyr y cynllun Grantiau Cyfalaf
    - 29 o'r 39 o ymatebwyr Pecynnau Cymunedol

- Dywedodd y canlynol fod cymorth wedi helpu i feithrin partneriaethau cryfach neu wella cydweithio:
    - 12 o'r 14 o ymatebwyr prosiect LNP
    - 4 o'r 5 o ymatebwyr y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol
    - 5 o'r 9 o ymatebwyr y cynllun Grantiau Cyfalaf
    - 23 o'r 39 o ymatebwyr Pecynnau Cymunedol

Ar gyfer y cynllun Chwalu Rhwystrau, 'mwy o gydlyniant cymunedol' oedd yr unig un o'r opsiynau a oedd ar gael a ddewiswyd gan staff (4 ymatebydd) pan ofynnwyd iddynt nodi mantais fwyaf y cyllid grant i'w grŵp neu eu sefydliad.

Mae'r rhesymeg dros ddarparu cymorth i feithrin gallu yn glir: fel y nodwyd yn y ddamcaniaeth newid a ddatblygwyd ar gyfer y rhaglen, ni ellir tybio capasiti sefydliadau lleol. Gallai dosbarthiad anghyson prosiectau LPfN ledled Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, awgrymu bod capasiti'n anghyson ledled y wlad. Fel arall, gall adlewyrchu gwahanol lefelau o angen am gymorth.

Un o nodweddion allweddol y dull gwerthuso realaidd yw'r angen i ystyried cyd-destun gweithredu ymyriadau. Mae'r angen lleol am gymorth a gallu sefydliadau lleol yn ffactorau cyd-destunol pwysig sy'n gallu dylanwadu ar sut mae ymyriadau'n llwyddo neu'n wynebu heriau, a pham. Ffactor hanfodol arall yw'r cyfle neu'r potensial i brosiect LPfN gael ei weithredu mewn ardal benodol - er enghraifft, a oes safle leol y gellid ei datblygu fel man gwyrdd neu naturiol. Os nad oes safle o'r fath yn bodoli, mae'n anochel bod y potensial i weithredu prosiect LPfN i wella mynediad lleol yn gyfyngedig. Nid yw'r mater hwn wedi cael ei archwilio'n fanwl fel rhan o'r gwerthusiad y tu hwnt i ddatblygu'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y rhaglen. Fodd bynnag, mae'r rhesymeg yn glir, ac mae'r dull gwerthuso realaidd yn awgrymu bod hon yn ystyriaeth gyd-destunol bwysig wrth asesu ble mae cynlluniau LPfN yn effeithiol, a pham. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â gallu sefydliadau lleol i nodi safleoedd o'r fath a sicrhau eu bod ar gael i'w datblygu.

Datganiadau esboniadol:

- Os oes gan sefydliadau lleol yr wybodaeth, y sgiliau a'r rhwydweithiau i ymgysylltu â chynlluniau LPfN a gwneud cais am gymorth, yna mae prosiectau'n fwy tebygol o gael eu cyflawni a'u cynnal yn effeithiol dros amser, oherwydd bod capasiti sefydliadol yn galluogi grwpiau i gael gafael ar adnoddau, ysgogi gwirfoddolwyr, a chydweithio ag eraill.
- Os yw cynlluniau LPfN yn darparu cymorth i feithrin gallu (fel hyfforddiant, adnoddau a chyfleoedd partneriaeth), yna mae sefydliadau lleol mewn gwell sefyllfa i gyflawni a chynnal prosiectau, oherwydd eu bod yn cael mynediad at offer, gwybodaeth a rhwydweithiau cydweithredol na fyddent ar gael fel arall.
- Os nad oes gan sefydliadau lleol y gallu i ymgysylltu â chynlluniau LPfN neu i nodi safleoedd addas, yna bydd llai o brosiectau'n cael eu rhoi ar waith yn yr ardaloedd hynny, oherwydd bod natur seiliedig ar alw'r rhaglen yn golygu mai dim ond pan fydd sefydliadau'n gallu cymhwyso a chyflawni y bydd gweithgarwch yn digwydd.

## Amserlenni a chynnal safleoedd, gweithgareddau a chanlyniadau

Mae cynaliadwyedd canlyniadau y tu hwnt i oes cymorth LPfN yn ystyriaeth bwysig. Mae angen cynnal y safleoedd sydd wedi cael eu creu neu eu datblygu, ac mae angen i'r gweithgarwch barhau. Os na fydd hyn yn digwydd, mae perygl na fydd canlyniadau sydd wedi'u cyflawni yn cael eu cynnal. Er enghraifft, os yw safbwyntiau pobl wedi newid ond nad yw hynny wedi newid eu hymddygiad eto, neu os nad yw'r newid mewn ymddygiad wedi'i wreiddio'n llawn eto.

Mae amser wedi cael ei nodi fel mater allweddol yn y gwerthusiad hwn, yn enwedig cyfyngiadau sy'n cael eu creu gan ddiffyg amser i roi prosiectau ar waith. Canfu'r gwerthusiad interim fod amserlenni cyfyngedig prosiectau yn rhwystr dro ar ôl tro i ymgysylltu'n ddwfn â'r gymuned, meithrin cysylltiadau, a sicrhau cynaliadwyedd canlyniadau. Tynnodd staff a chydlynwyr y prosiect sylw at bwysigrwydd caniatáu digon o amser i brosiectau ddatblygu, i sefydlu perthnasoedd, ac i newid ymddygiad. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y gallai rhai canlyniadau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad a chydlyniant cymunedol, ddod i'r amlwg neu gael eu cynnal ar ôl gweithgareddau ffurfiol diwedd y prosiect yn unig.

Y rhwystrau mwyaf cyffredin i ymgysylltu'n effeithiol â'r cymunedau lleol a nodwyd gan staff a ymatebodd i arolwg y gwerthusiad oedd oedi wrth gyflawni prosiectau, gan gynnwys materion yn ymwneud â thywydd garw, (20 allan o 67 o ymatebwyr i'r cwestiwn) a dim digon o amser i ymgysylltu'n llawn â chymunedau (19 allan o 67). Mae hyn yn awgrymu bod amser, neu ddiffyg amser yn benodol, yn ffactor allweddol o ran yr hyn y gall prosiect ei gyflawni o ran ymgysylltu â'r gymuned leol. Felly, mae amser hefyd yn debygol o fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Mae ymestyn oes prosiectau drwy ddarparu cyllid ychwanegol yn un ffordd o fynd i'r afael â hyn er bod angen cydnabod y cyfyngiadau cyllido. Mae cynnal prosiect drwy ddulliau eraill ar ôl i gyllid LPfN ddod i ben yn opsiwn arall, sy'n cael ei drafod ymhellach isod.

O ran cynnal y safleoedd a ddatblygwyd gyda chymorth LPfN, mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn gyfyngedig ac yn hunangofnodedig, ond mae'n rhoi rhywfaint o wybodaeth. Gofynnwyd i staff a ymatebodd i'r arolwg (N=69) a fydd eu prosiect neu eu gweithgarwch yn parhau ar ôl i gyllid LPfN ddod i ben. Yn y cyd-destun hwn, gallai “parhau” olygu defnyddio a chynnal ased cyfalaf yn barhaus, neu barhau â gweithgareddau drwy gyllid newydd neu gymorth gan wirfoddolwyr. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan: Dywedodd 68% (47 allan o 69) fod y prosiect neu'r gweithgaredd yn parhau yn ei gyfanrwydd, a dywedodd 25% arall (18 allan o 69) fod rhai elfennau'n cael eu cynnal. Dim ond lleiafrif bach a ddywedodd fod gweithgareddau wedi dod i ben (neu y byddent yn gwneud hynny) neu nad oeddent yn siŵr (4 allan o 69).

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai'r canfyddiadau hyn adlewyrchu sampl o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg. Mae ymatebwyr yn fwy tebygol o fod yn rhan o waith parhaus, gan eu bod wedi derbyn yr arolwg neu'n dal mewn cysylltiad â'r prosiect, tra bo prosiectau lle gallai gweithgareddau fod wedi dod i ben yn llai tebygol o fod wedi cael neu ymateb i'r arolwg. Mae hwn yn gafeat pwysig, gan y gallai olygu bod y canfyddiadau'n goramcangyfrif gwir gyfradd parhad prosiect. Unwaith eto, gallai hyn olygu bwlch yn y data monitro ar gyfer y rhaglen LPfN; nid oes data cadarn ar faint o brosiectau sy'n parhau ar ôl i gymorth LPfN ddod i ben.

Mae angen ystyried yr heriau y mae'r tîm ymchwil yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â phrosiectau ar gyfer ymweliadau safle yma hefyd, fel y nodir yn Adran 2. Yn benodol, roedd yn anodd ymgysylltu â rhai sefydliadau a oedd wedi cael eu hariannu i weithredu prosiectau LPfN os oedd y prosiectau hynny wedi dod i ben. Er nad yw'n glir a oedd hyn oherwydd bod gweithgareddau ar y safleoedd hynny wedi dod i ben, mae angen ystyried y posibilrwydd ac mae'n cynrychioli risg a allai gyfiawnhau sylw pellach.

Pan ofynnwyd yn yr arolwg i staff y prosiect sut roedd parhad yn cael ei gyflawni, soniwyd yn aml am gael cyllid ychwanegol neu strategaeth gyllido (32 ymateb), er bod hyn yn amodol ar sicrhau bod cyllid o'r fath ar gael. Fodd bynnag, yr esboniad mwyaf cyffredin oedd dibyniaeth ar ymgysylltu â'r gymuned a chymorth i wirfoddolwyr (39 ymateb), gan danlinellu rôl ganolog gwirfoddolwyr mewn prosiectau LPfN. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at risg a nodwyd gan reolwyr prosiect a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiad gwerthuso interim: gall prosiectau a gweithgareddau fynd yn orddibynnol ar wirfoddolwyr ac felly maent yn agored i faterion fel disflastod ymysg gwirfoddolwyr. Tynnir sylw yn yr adroddiad interim at y cannoedd o wirfoddolwyr sy'n rhan o’r gwaith o weithredu prosiectau LPfN.

Roedd y cyfweliadau a gynhaliw â rheolwyr prosiectau a safleoedd wrth ymweld â safleoedd yn awgrymu bod cynaliadwyedd yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau: presenoldeb asedau ffisegol sy'n annog defnydd parhaus (lle roeddent yn rhan o'r prosiect), gallu ac ymrwymiad gwirfoddolwyr, a phartneriaethau cryf â sefydliadau lleol eraill. Er ei bod yn ymddangos bod llawer o brosiectau wedi gosod sylfeini cadarn, roedd hefyd yn amlwg i'r rhai a gyfwelwyd bod heriau'n parhau. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal y gallu i arwain yn y gymuned leol a sicrhau parhad cyllid. Cafodd blinder gwirfoddolwyr, newidiadau mewn staff allweddol, a chyllid tymor hir cyfyngedig hefyd eu nodi fel rhwystrau i gynaliadwyedd drwy gyfweliadau a gynhaliwyd â staff cynlluniau ar gyfer yr adroddiad gwerthuso interim.

Mae llenyddiaeth ar stiwardiaeth amgylcheddol hefyd yn pwysleisio bod cynaliadwyedd yn dibynnu ar ffactorau ffisegol a chymdeithasol. Mae safleoedd yn fwy tebygol o gael eu cynnal pan fyddant yn hygyrch, yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned, ac yn cael eu cefnogi gan gyfleoedd ymgysylltu parhaus a strwythurau llywodraethu (McLeod ac eraill, 2025). Mae tystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd arwyddion amlwg o effaith a buddsoddiad parhaus mewn rhwydweithiau gwirfoddolwyr i atgyfnerthu perchnogaeth a balchder (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 2019) sy'n cysylltu â'r canfyddiad blaenorol, yn sampl y gwerthusiad o leiaf, bod grŵp mawr o gyfranogwyr yn cymryd rhan oherwydd eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth i'w cymuned leol. Dyna yw eu cymhelliad, ac felly mae amlygrwydd yr effaith honno'n bwysig. Felly, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod atgyfnerthu cymdeithasol hefyd yn fecanwaith allweddol: mae gweithgareddau grŵp rheolaidd a gwelliannau amlwg i fannau lleol yn sbarduno ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb ar y cyd, gan wneud ymddygiad o blaid yr amgylchedd yn fwy arferol a sicrhau ei fod yn cael ei werthfawrogi.

Fel y trafodwyd yn yr adran canlyniadau, mae tystiolaeth yn awgrymu bod prosiectau LPfN wedi cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth, sgiliau a chysylltiad â natur ymysg cyfranogwyr, gyda llawer yn dweud bod ganddynt well dealltwriaeth o fioamrywiaeth, gwybodaeth ymarferol am arddio a rheoli cynefinoedd, a gwerthfawrogiad cryfach o fannau gwyrdd lleol. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod y rhaglen wedi creu amodau a allai gefnogi ymddygiad o blaid yr amgylchedd yn y tymor hwy. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r ymchwil hwn i ba raddau y mae'r ymddygiadau hyn yn cael eu cynnal dros amser a byddai angen asesu canlyniadau cyfranogwyr mewn prosiectau dros y tymor hwy.

Mae'n amlwg bod ymgysylltu am gyfnod hir â mannau gwyrdd a naturiol yn debygol o fod yn bwysig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol parhaus. Er bod manteision cymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiad â natur wedi'u cofnodi'n dda fel y trafodwyd yn yr adran hon, mae arolygon poblogaeth diweddar yn awgrymu bod lefelau cysylltiad â natur yn y DU yn dal yn is na'r trothwy sy'n ofynnol i annog agweddau ac ymddygiad parhaus o blaid yr amgylchedd (gweler: Richardson ac eraill, 2019).

Gan edrych ar y mater yn ehangach, mae ymchwil sy'n dod i'r amlwg hefyd yn dangos, er mwyn cynnal cysylltiad â natur ar ôl i weithgaredd neu ymyriad penodol ddod i ben, y dylid dylunio rhaglenni yn unol â'r pum llwybr cydnabyddedig at gysylltu â natur. Mae'r llwybrau hyn yn fframwaith defnyddiol ar gyfer llywio'r gwaith o ddylunio a darparu ymyriadau sy'n ceisio cryfhau a gwreiddio cysylltiad hirdymor unigolion â'r byd naturiol ac maent yn cynnwys:

- Cyswllt drwy'r synhwyrau, ee tirluniad a gosodiadau celf i annog ymgysylltiad synhwyraidd â natur,
- Emosiwn (teimlo'r emosiynau cadarnhaol a ddaw o ganlyniad i natur) ee creu mannau i fwynhau “y pethau da” ym myd natur,
- Harddwch (dod o hyd i harddwch yn y byd naturiol) ee creu bocsys planhigion mewn ardaloedd prysur i sicrhau bod y byd naturiol yn weladwy i bobl leol,
- Ystyr (archwilio a mynegi sut mae natur yn effeithio ar unigolion) ee gweithgarwch celfyddydol i ddathlu'r byd naturiol, a

- Tosturi (meddwl am yr hyn y gall unigolyn ei wneud dros natur) ee y gymuned yn rheoli mannau gwyrdd cyhoeddus sy'n ystyriol o fywyd gwyllt

Gweler: Richardson ac eraill, 2020

Datganiadau esboniadol:

- Os oes gan brosiectau ddigon o amser a dilyniant, yna mae ymgysylltu'n dwysau ac mae ymddygiadau'n fwy tebygol o aros, oherwydd mae cyswllt dro ar ôl tro a chynnydd gweladwy yn gwreiddio arferion ac ymrwymiad.

- Os yw cymunedau’n gwneud gwelliannau pendant i fannau lleol a bod ganddynt rwydweithiau partneriaeth neu wirfoddolwyr cryf, yna mae manteision y prosiect yn fwy tebygol o gael eu cynnal, oherwydd mae'r cyfuniad o newid gweladwy a chymorth cymdeithasol yn sbarduno ymgysylltu a gwaith cynnal a chadw parhaus.

## 3.3 Rhan 3: Goblygiadau o safbwynt rheoli polisi a rhaglenni

Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn tynnu sylw at y ffaith nad canlyniad yr ymyriad ei hun yn unig yw canlyniadau prosiectau LPfN, ond eu bod yn cael eu cynhyrchu gan y rhyngweithio rhwng adnoddau’r rhaglen ac ymatebion cyfranogwyr yn eu cyd-destunau penodol. Mae hyn yn tanlinellu'r pwysigrwydd i reolwyr polisi a rhaglenni ddeall a chefnogi'r mecanweithiau sy'n sbarduno newid cadarnhaol, yn ogystal â'r amodau sy'n galluogi neu'n cyfyngu ar y mecanweithiau hynny.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfranogiad yn arbennig o gryf pan fydd cymhellion cyfranogwyr yn cyd-fynd â'r cyfleoedd a ddarperir gan brosiectau. Felly, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch y canlyniadau a fwriedir. Cafodd y rhaglen LPfN ei datblygu i ddechrau i dargedu ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig at natur yn bennaf, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig. Fodd bynnag, mae'r cylch gwaith hwn wedi ehangu dros amser i gynnwys gwella a chreu mannau gwyrdd, lle bo hynny'n hygyrch, mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r cynllun Chwalu Rhwystrau yn enghraifft o sut gall dulliau wedi'u targedu ysgogi mecanweithiau ymgysylltu a chynhwysiant mewn grwpiau neu gymunedau penodol.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu y gallai fod angen i brosiectau ddatblygu dros amser ac, os felly, gall y 'math' o gyfranogwr sydd ei angen arnynt newid hefyd. Er enghraifft, efallai y bydd angen gwirfoddolwyr ar brosiect i wneud y gwaith ffisegol sydd ei angen i greu neu wella safle. Mewn achosion o'r fath, mae'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol targedu cyfranogwyr sy'n cael eu cymell gan y cyfle i gyfrannu at brosiect a fydd yn helpu i wella eu cymuned leol. Pan fydd safle wedi cael ei greu, efallai y bydd y flaenoriaeth yn newid i gynnal a chadw ac ymgysylltu â'r rheini nad oedd ganddynt fynediad o'r blaen at le gwyrdd/naturiol yn eu hardal leol. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai angen i brosiectau gael yr hyblygrwydd a'r cyfle i ddatblygu.

Mae'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu hariannu yn un o nodweddion allweddol LPfN ac mae'n deillio o'r dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Mae'r hyblygrwydd

hwn i ddylunio prosiect ar sail nodweddion, anghenion a chyfleoedd yn bwysig yn ogystal â chaniatáu i grwpiau addasu eu gweithgareddau wrth i'w prosiect ddatblygu.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hefyd yn awgrymu bod creu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol drwy weithgareddau grŵp, gwirfoddoli a gweithgareddau cymunedol yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwella llesiant, lefelau cadw a stiwardiaeth. Nid yw creu neu ddatblygu safleoedd yn unig yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Mae'r gwerthusiad wedi canfod mai'r nodweddion hyn yw cryfderau presennol prosiectau LPfN ac y dylid parhau i'w cefnogi ochr yn ochr â'r gwaith ymarferol angenrheidiol i ddatblygu ac adfer safleoedd gwyrdd a naturiol. Mae'r data hefyd yn awgrymu y bydd cyfuno gweithgarwch ymarferol â dysgu ac ymateb i flaenoriaethau cymunedol sy'n datblygu yn helpu i gynyddu ymgysylltiad ac effaith. Roedd hyn yn arbennig o wir i gyfranogwyr a oedd eisoes yn defnyddio mannau naturiol yn aml cyn cymryd rhan yn y prosiect. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu, ar gyfer y mathau hyn o gyfranogwyr, bod prif effeithiau'r rhaglen LPfN yn ymwneud â gwella sgiliau, symud o ddiddordeb amgylcheddol i stiwardiaeth, a chysylltiadau cymunedol cryfach.

Yn olaf, y mecanweithiau allweddol ar gyfer cynnal canlyniadau ar ôl i’r cyllid cychwynnol ddod i ben yw ymgysylltiad parhaus cyfranogwyr, presenoldeb asedau ffisegol a chymdeithasol gwerthfawr, a phartneriaethau cymunedol cryf. Mae hyn yn awgrymu y dylai rheolwyr polisi a rhaglenni ystyried y ffordd orau o gefnogi gwaith cynnal a chadw, ôl-ofal a chynllunio olyniaeth o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau bod y mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu a stiwardiaeth barhaus yn cael eu gwreiddio yn nyluniad prosiectau.

Mae'r drafodaeth hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd monitro a chasglu data cadarn. Heb wybodaeth ddibynadwy am bwy sy'n cymryd rhan ac a yw prosiectau, gweithgareddau a safleoedd yn cael eu cynnal, a sut, mae'n anodd asesu a yw mecanweithiau'n cael eu rhoi ar waith yn unol â'r bwriad neu i dargedu adnoddau'n effeithiol. Bydd cryfhau systemau monitro i gasglu proffiliau cyfranogwyr, patrymau ymgysylltu, a chanlyniadau tymor hwy yn bwysig i ddatblygu rhaglenni yn y dyfodol ac i brofi tybiaethau'r dull realaidd.

# 4. Casgliad

Sefydlwyd y rhaglen LPfN i greu 'natur ar garreg y drws', gan gefnogi unigolion a'u cymunedau drwy wella mynediad lleol at fannau gwyrdd a naturiol. Roedd y gwerthusiad hwn yn ceisio asesu i ba raddau roedd y rhaglen wedi cyflawni'r nodau hyn, a deall sut cafodd y canlyniadau eu cynhyrchu, a pham. Mae'n adeiladu ar werthusiadau blaenorol drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a mecanweithiau, gan ddefnyddio dull realaidd i weld beth oedd yn gweithio, i bwy, ac o dan ba amgylchiadau. Mae hefyd yn ceisio ategu astudiaeth ar wahân sy'n cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i edrych ar effaith y rhaglen a'i chynlluniau ar fioamrywiaeth a darparu gwasanaethau ecosystem.

Mae'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau dros dro'r adroddiad interim a'r ddamcaniaeth newid a ddatblygwyd ar gyfer LPfN. Roedd yr ymchwil yn profi ac yn cadarnhau'r ddamcaniaeth i raddau helaeth, gyda'r dystiolaeth a gasglwyd yn cefnogi'r rhagdybiaeth y gall creu mannau naturiol arwain at fwy o gefnogaeth i natur a gwella llesiant cymunedol—er bod maint y newid yn dibynnu ar y cyd-destun, proffil y cyfranogwyr, a phresenoldeb mecanweithiau galluogi.

Yn gyffredinol, daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y rhaglen LPfN wedi dangos gwerth a photensial ymyriadau cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar natur i sicrhau manteision personol a chymdeithasol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â sylfaen dystiolaeth ehangach sy'n dangos y gall mynediad at fannau gwyrdd wella iechyd, cryfhau cydlyniant cymdeithasol, a meithrin safbwyntiau ac ymddygiad sydd o blaid yr amgylchedd. Er nad oedd yr ymchwil sylfaenol ar gyfer y gwerthusiad hwn yn nodi'n glir effaith prosiectau LPfN mewn cymunedau difreintiedig, mae llenyddiaeth ehangach yn cefnogi'r potensial i brosiectau a gweithgareddau o'r fath gael effaith sylweddol yn y cyd-destunau hyn. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn caniatáu casgliadau pendant ynghylch graddfa na gwytnwch y canlyniadau a nodwyd. Fodd bynnag, mae'n arwydd cryf y gall prosiectau cymunedol a ariennir gan LPfN greu mannau lleol gwerthfawr, cryfhau cysylltiadau cymunedol, a chefnogi ymgysylltiad cadarnhaol â natur o dan yr amodau cywir.

Mae'n bwysig dehongli canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn ofalus. Roedd y sylfaen dystiolaeth yn dod o sampl gyfyngedig o brosiectau a chyfranogwyr a oedd wedi dewis cymryd rhan, ac roedd llawer o'r data'n ansoddol ac yn hunangofnodedig. Er bod y gwerthusiad yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y mathau o ganlyniadau y gall prosiectau LPfN eu cynhyrchu a'r mecanweithiau a'r cyd-destun sy'n creu'r llwyddiant hwnnw, ni all ddarparu asesiad cynhwysfawr o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd. Ni all gynnig casgliadau pendant ychwaith am yr effeithiau yn y tymor hir, gan fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ymwneud â chanlyniadau tymor byr i ganolig. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r gwerthusiad yn rhoi cipolwg pwysig sy'n berthnasol i ddylunio rhaglenni a pholisïau yn y dyfodol.

## Canlyniadau a nodwyd ar gyfer prosiectau LPfN

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod prosiectau LPfN wedi cyfrannu at amrywiaeth o ganlyniadau i unigolion a chymunedau. Cynhyrchir y canlyniadau hynny hefyd gan amrywiaeth eang iawn o brosiectau a gweithgareddau. Roedd dadansoddiad o ymatebion i'r arolwg, ymweliadau safle a chyfweliadau yn dangos bod mwy

o ymgysylltu â mannau gwyrdd a naturiol lleol yn nodwedd gyson ar draws y rhaglen. Dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi cymryd rhan yn y gwaith o greu, gwella a defnyddio'r mannau hyn, a oedd yn ymddangos fel pe baent wedi arwain at amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn gysylltiedig â natur ac ar gyfer llesiant personol.

Roedd gwelliannau mewn llesiant yn amlwg, gydag ymatebwyr yn aml yn nodi bod mannau naturiol yn fuddiol ar gyfer ymlacio ac iechyd meddwl. Nodwyd manteision i iechyd corfforol, fel treulio mwy o amser yn yr awyr agored a chyfleoedd i wneud ymarfer corff, er y canfuwyd bod y canlyniadau hyn yn gyffredinol yn rhai cynyddrannol yn hytrach na thrawsnewidiol. Roedd prosiectau hefyd yn hwyluso cysylltiadau cymdeithasol, gyda chyfranogwyr yn disgrifio cyfleoedd i gwrdd ag eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gallai'r rhyngweithiadau hyn fod wedi helpu i leihau unigrwydd a meithrin ymdeimlad o berthyn.

O ran datblygiad personol, dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi meithrin sgiliau a gwybodaeth newydd, yn enwedig mewn garddio, rheoli cynefinoedd, a stiwardiaeth amgylcheddol. Er bod llawer o’r ymatebwyr eisoes yn defnyddio mannau gwyrdd yn rheolaidd cyn iddynt gymryd rhan mewn prosiectau LPfN, roedd cymryd rhan wedi arwain, i raddau, at fabwysiadu arferion sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd, gan gynnwys newidiadau mewn arferion garddio a mwy o sylw i fioamrywiaeth. Roedd hyn yn dangos y potensial i'r rheini a oedd eisoes â safbwyntiau cadarnhaol ar natur a'r amgylchedd 'symud ymlaen' ar ôl cymryd rhan mewn prosiect LPfN, hyd yn oed os nad nhw oedd y prif 'grŵp targed' ar gyfer y rhaglen o reidrwydd.

I grynhoi, er ei bod yn ymddangos bod y rhaglen LPfN wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu mannau natur lleol, wedi cyfrannu at ymgysylltu â'r gymuned, ac wedi hwyluso profiadau cadarnhaol i gyfranogwyr, dylid ystyried y canfyddiadau hyn fel rhai dangosol yn hytrach na therfynol. Fodd bynnag, maent yn cyd-fynd yn fras ag ymchwil ehangach ar fanteision cymdeithasol a llesiant mannau gwyrdd hygyrch. Mae'r graddau y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cynnal dros amser, ac i ba raddau y gellir eu cyffredinoli ar draws pob cymuned, yn ansicr o hyd. Byddai angen ymchwil bellach, gyda data mwy cadarn a chynrychioliadol, i ddod i gasgliadau mwy pendant am effaith y rhaglen yn y tymor hir.

## Mecanweithiau a chyd-destun ar gyfer cyflawni'r canlyniadau

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu mecanweithiau a ffactorau cyd-destunol pwysig a gyfrannodd at y canlyniadau a welwyd mewn prosiectau LPfN. Er bod llawer o'r drafodaeth ar fecanweithiau a chyd-destun yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, mae rhywfaint ohoni hefyd yn seiliedig ar ddamcaniaeth a rhesymeg, wedi'i chefnogi gan lenyddiaeth ehangach, lle nad oedd y dystiolaeth angenrheidiol ar gael.

Nodwyd bod alinio rhwng cymhellion cyfranogwyr a'r cyfleoedd a ddarperir gan brosiectau yn ffactor pwysig o ran annog ymgysylltu a chynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Ystyriwyd bod prosiectau a oedd yn cynnig gweithgareddau a oedd yn cael eu hystyried yn ystyrlon, fel gwella mannau lleol, gwirfoddoli a dysgu am natur, yn fwy tebygol o ddenu a chadw cyfranogwyr. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod targedu'r rheini sy'n cael eu cymell gan amcanion prosiect i fod yn rhan o'r gwaith o'i gyflawni yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus o ran creu neu wella man gwyrdd. Yn y cyfamser, efallai y bydd rôl i dargedu'r rheini sydd â llai o brofiad blaenorol o fyd natur ar ôl sefydlu'r safle.

Roedd hyblygrwydd wrth ddylunio a chyflawni prosiectau hefyd yn ymddangos yn bwysig, yn ogystal â'r gallu i deilwra gweithgareddau i anghenion lleol a nodweddion cyfranogwyr. Mewn sawl achos, roedd prosiectau a oedd yn cael eu cefnogi gan LPfN wedi datblygu dros amser, gan symud eu ffocws wrth i safleoedd ddatblygu ac wrth i anghenion cyfranogwyr newid. Gallai prosiectau LPfN hefyd fod yn rhan o gynllun neu 'genhadaeth' ehangach ar ran y sefydliad a oedd yn cael ei ariannu. Nodwyd bod caniatáu i brosiectau ddatblygu fel hyn yn bwysig i gynhyrchu'r canlyniadau a welwyd. Nodwyd bod cyfleoedd ar gyfer dilyniant i unigolion sy'n cymryd rhan, fel symud o dasgau sylfaenol i rolau neu hyfforddiant uwch, yn cefnogi cyfranogiad parhaus a chanlyniadau cadarnhaol ymysg cyfranogwyr.

Daeth cysylltiad cymdeithasol i'r amlwg fel mecanwaith pellach, gyda gweithgareddau grŵp a gwirfoddoli yn gyfleoedd i gyfranogwyr feithrin perthnasoedd a chryfhau cydlyniant cymunedol. Dywedwyd bod y cysylltiadau cymdeithasol hyn yn sail i ymgysylltu parhaus ac, mewn rhai achosion, stiwardiaeth dros safleoedd y tu hwnt i gyfnod cychwynnol cyllid y prosiect. Tynnwyd sylw hefyd at allu sefydliadau lleol i gyflawni a chynnal prosiectau, gyda'r dadansoddiad yn awgrymu bod gwybodaeth, sgiliau a rhwydweithiau sefydliadol yn ffactorau cyd-destunol pwysig sy'n dylanwadu ar lwyddiant prosiectau.

Fodd bynnag, unwaith eto, dylid dehongli'r canfyddiadau hyn yn ofalus am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol.

## Goblygiadau

Mae gan ganfyddiadau'r gwerthusiad nifer o oblygiadau ar gyfer rheoli polisi a rhaglenni yn y dyfodol. Roedd y dadansoddiad yn awgrymu bod canlyniadau prosiectau LPfN yn cael eu siapio gan yr ymyriadau eu hunain a gan y rhyngweithio rhwng adnoddau rhaglenni, cymhellion cyfranogwyr, a chyd-destun lleol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd dylunio ymyriadau hyblyg sy'n gallu addasu i anghenion a blaenoriaethau newidiol y gymuned, a chefnogi mecanweithiau sy'n hwyluso ymgysylltu a stiwardiaeth barhaus. Dylid ystyried y goblygiadau hyn fel rhai dros dro, tra'n aros am ymchwil bellach gyda data mwy cadarn a chynrychioladol.

## Myfyrdodau terfynol

I grynhoi, canfuwyd bod y rhaglen LPfN wedi sicrhau manteision ystyrlon i bobl a chymunedau drwy greu cyfleoedd i ymgysylltu â natur, meithrin cysylltiad cymdeithasol, a chefnogi llesiant. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad hwn yn cyfeirio at fecanweithiau penodol a gyfrannodd at y canlyniadau a arsylwyd - cysoni cymhelliant, hyblygrwydd, cysylltiad cymdeithasol, a chynnydd. Dylai'r mecanweithiau hyn fod wrth wraidd y gwaith o ddylunio polisïau a rheoli rhaglenni yn y dyfodol er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effaith. Bydd monitro a gwerthuso parhaus yn bwysig i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn tystiolaeth ac i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

# 5. Argymhellion

## Argymhelliad 1: ardaloedd targed lle mae lefel isel o ymgysylltu hanesyddol

Dylid ystyried opsiynau i nodi a chefnogi ardaloedd lle mae gweithgarwch LPfN wedi bod yn gyfyngedig. Gan adeiladu ar y mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r canlyniadau a nodir yn yr adroddiad hwn, dylai hyn gynnwys ymchwil i asesu a yw amodau lleol—gan gynnwys argaeledd safle a chapasiti sefydliadol lleol—yn ffafriol i gyflawni LPfN, ac a oes modd datblygu neu gefnogi'r rhain. Dylid addasu dulliau gweithredu i gyd-destun lleol, gan gydnabod efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un ardal yn gweithio mewn ardal arall.

Pan fydd rhwystrau'n bodoli, efallai y bydd angen mesurau ychwanegol fel meithrin gallu neu ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau lleol a fyddai wedyn yn cyflawni prosiectau. Er enghraifft, gellid edrych ar gyfleoedd i sicrhau safleoedd ar gyfer datblygu mannau gwyrdd/naturiol mewn ardaloedd trefol, gan sicrhau eu bod ar gael i grwpiau lleol drwy'r Cynllun Pecynnau Cymunedol.

Gallai asesu'r galw am ailagor Cynllun Grantiau Cyfalaf LPfN hefyd fod yn rhan o'r ymchwil hwn. Dylai'r cymorth ganolbwyntio ar ymgysylltu cychwynnol a dylai hefyd ddarparu cyfleoedd i wneud cynnydd, gan alluogi cyfranogwyr a sefydliadau i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ac arweinyddiaeth dros amser. Byddai'r dull hwn yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at natur ac yn sicrhau bod strategaethau cyflawni yn y dyfodol yn ystyried dichonoldeb a chynaliadwyedd, gan gynnwys mecanweithiau i gefnogi ymgysylltu a stiwardiaeth yn y tymor hir.

## Argymhelliad 2: sicrhau bod ymgysylltu â chyfranogwyr newydd yn amcan clir mewn rhaglenni

Gan dybio bod cynyddu cyfranogiad ymysg y rheini nad ydynt yn ymweld â safleoedd gwyrdd neu naturiol ar hyn o bryd yn dal yn amcan ar gyfer LPfN, dylid gwneud hyn yn glir ar draws holl elfennau'r rhaglen a'i monitro yn unol â hynny. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus o ran mynediad at natur a byddai'n sicrhau bod manteision LPfN yn cael eu dosbarthu'n fwy cyfartal. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar draul y rhai sydd eisoes wedi'u cymell i gymryd rhan; mae'r ddau grŵp yn bwysig ar gyfer llwyddiant y prosiect. Dylai canllawiau a phrosesau monitro rhaglenni wahaniaethu rhwng atgyfnerthu ymgysylltiad ymysg y rhai sydd eisoes wedi'u cymell a thrawsnewid agweddau ac ymddygiad grwpiau newydd neu grwpiau nad ydynt yn ymgysylltu cymaint, gyda disgwyliadau realistig a strategaethau wedi'u teilwra ar gyfer pob un.

Dylai monitro gynnwys dangosyddion fel cyfran y cyfranogwyr nad ydynt wedi ymgysylltu llawer, neu ddim o gwbl, yn flaenorol â mannau gwyrdd, a gofnodwyd adeg cofrestru neu recriwtio. I gefnogi'r argymhelliad hwn, dylid edrych ar y potensial i gyflwyno elfennau newydd yn y Pecynnau Cymunedol a chynlluniau Partneriaeth Natur Lleol, gan ddefnyddio gwersi o'r cynllun Chwalu Rhwystrau. Gallai hyn gynnwys allgymorth wedi'i dargedu, gweithgareddau sy'n briodol yn ddiwylliannol, a mesurau ymarferol i oresgyn rhwystrau fel trafnidiaeth,

hygyrchedd, a chanfyddiadau o allgáu. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dulliau o'r fath yn fwyaf effeithiol pan fyddant wedi’u cyfuno â strategaethau sy'n meithrin cysylltiad â natur ac ymdeimlad o le, gan gefnogi ymgysylltiad parhaus a newid ymddygiad.

## Argymhelliad 3: cryfhau'r ddarpariaeth leol drwy sefydliadau cymunedol profiadol

Dylid annog ymgysylltu parhaus â mudiadau cymunedol lleol, gan flaenoriaethu ymreolaeth, cefnogaeth a chyllid hyblyg i gysoni cenadaethau. Dylid buddsoddi mewn asedau ffisegol (fel gwella safleoedd) ac asedau cymdeithasol (fel rhwydweithiau a phartneriaethau gwirfoddolwyr) i ategu cynaliadwyedd.

Dylid ystyried dyblygu'r cymorth a ddarperir i gynghorau tref a chymuned drwy Un Llais Cymru ar gyfer sefydliadau trydydd sector eraill sy'n gweithio gyda chymunedau sydd wedi'u hallgáu, er mwyn eu hannog i gymryd mwy o ran mewn cynlluniau LPfN. Gellid integreiddio'r rôl hon hefyd i weithgareddau Partneriaethau Natur Lleol. Yn ogystal â chymorth ariannol, dylid archwilio mesurau meithrin gallu—fel hyfforddiant, cyngor llywodraethu, a dysgu gan gymheiriaid—i gryfhau cydnerthedd sefydliadol a sicrhau bod manteision yn cael eu cynnal dros amser. Dylai cymorth hefyd fynd i'r afael â rhwystrau rhag cymryd rhan, gan gynnwys diflastod gwirfoddolwyr, olyniaeth arweinyddiaeth, a mynediad i safleoedd.

Mae diflastod ymysg gwirfoddolwyr yn enghraifft o fater sy'n mynd y tu hwnt i'r rhaglen LPfN. O'r herwydd, mae angen ei drafod ar lefel ehangach na LPfN. Fodd bynnag, dylid edrych ar y potensial i ddefnyddio'r gefnogaeth y mae mudiadau fel CGGC (sydd eisoes yn ymwneud â LPfN) yn ei darparu i grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â hyn a materion eraill ochr yn ochr â gweithgareddau LPfN.

## Argymhelliad 4: atgyfnerthu newid ymddygiad drwy ymgysylltu’n barhaus

Dylai'r rhaglen LPfN gefnogi cyfleoedd i barhau i gynnwys y gymuned y tu hwnt i'r gwaith cychwynnol o ddatblygu'r safle. Mae hyn yn cynnwys gwirfoddoli, digwyddiadau tymhorol, ac arwyddion amlwg o effaith (ee safleoedd sy'n ffynnu) i atgyfnerthu ymdeimlad o berchnogaeth a balchder. Lle bo'n briodol, dylai prosiectau gynnig llwybrau cynnydd clir i gyfranogwyr, gan eu galluogi i symud o gymryd rhan gychwynnol i rolau neu hyfforddiant datblygedig. Dylid adolygu ac addasu strategaethau ymgysylltu'n rheolaidd ar sail adborth cyfranogwyr a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithgareddau o'r fath yn bwysig i newid ymddygiad yn y tymor hir a gwreiddio normau sydd o blaid yr amgylchedd, yn enwedig pan fyddant yn cryfhau'r cysylltiad â natur ac ymdeimlad o le. Er mwyn galluogi hyn, dylai cyllid parhaus (gan gynnwys cyllid refeniw) fod ar gael ar gyfer gweithgareddau 'ar ôl datblygu safle', fel strategaethau cyfathrebu, allgymorth wedi'i dargedu, a digwyddiadau cynhwysol.

Dylid ystyried cynllun penodol yn y rhaglen Pecynnau Cymunedol neu flaenoriaeth benodol yng ngweithgareddau Partneriaeth Natur Lleol ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynnal ymgysylltiad a stiwardiaeth. Byddai'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod manteision LPfN yn cael

eu cynnal dros amser, yn enwedig mewn cymunedau lle mae rhwystrau rhag cymryd rhan yn dal i fodoli.

## Argymhelliad 5: cryfhau'r gwaith monitro a gwerthuso ar draws y rhaglen LPfN

Mae'n bwysig cydnabod yr angen i unrhyw broses fonitro a gwerthuso fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r ymyrraeth a chapasiti'r sefydliadau dan sylw. Felly, dylai'r system newydd a gynigir isod gael ei phrofi'n ddigonol yn erbyn y meini prawf cyn cael ei rhoi ar waith. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o ganolbwyntio ar sampl gynrychiadol o brosiectau mewn rhai achosion.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau data a nodwyd yn y gwerthusiad hwn, dylid gweithredu fframwaith monitro a gwerthuso mwy cadarn, cyson a pharhaus ar draws y rhaglen LPfN. Dylai hyn gynnwys set gyson o ddangosyddion perfformiad wedi'u diffinio'n dda a ddefnyddir gan bob cynllun a phrosiect, gan alluogi asesu gweithgareddau (ee nifer a phroffil y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan, gan gynnwys amrywiaeth demograffig) a chanlyniadau (ee newidiadau mewn agweddau, ymddygiad a llesiant) ar lefel rhaglen. Dylid casglu data ychwanegol am gyd-destun a chymhelliant yn ystod y cam ymgeisio neu ddylunio prosiect er mwyn deall cynulleidfaoedd targed yn well a'r rhwystrau rhag ymgysylltu. Er enghraifft, gellid cyhoeddi arolwg syml pan fydd cyfranogwyr yn ymgysylltu am y tro cyntaf i ofyn cwestiynau sylfaenol am eu hagweddau a'u hymddygiad at natur.

Dylai gweithgareddau monitro a gwerthuso parhaus gan brosiectau sy’n cael eu cefnogi ac sy’n dilyn fframwaith Llywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth allweddol wrth gyflawni, gan ddefnyddio offer adrodd digidol a dulliau cyfranogol lle bo hynny'n bosibl. Dylid defnyddio dull monitro dilynol hydredol i asesu canlyniadau hirdymor fel newid parhaus i ymddygiad, cynnal a chadw safle, ac ymdeimlad o le, gan ganolbwyntio ar sampl cynrychioliadol. Dylid treialu dulliau monitro cyfranogol a dan arweiniad y gymuned i wella perchnogaeth, ansawdd data, ac ymatebolrwydd i anghenion lleol. Dylid cynnwys adolygiadau dysgu rheolaidd yng nghylch y rhaglen, gan ddefnyddio canfyddiadau monitro a gwerthuso i addasu dyluniad a darpariaeth y rhaglen. Bydd parhau i ddefnyddio dull realaidd o brofi a mireinio datganiadau esboniadol yn cefnogi dysgu parhaus am yr hyn sy'n gweithio, i bwy, ac ym mha gyd-destun. Bydd y dull hwn yn gwella atebolrwydd ac yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i lywio'r gwaith o ddylunio polisïau a rhaglenni yn y dyfodol, gan sicrhau bod LPfN yn parhau i sicrhau manteision teg a chynaliadwy.

# Atodiad A: Cyflwyniad manylach i gynlluniau LPfN


Mae Ffigur AA.1 ar y dudalen nesaf yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r strwythur darparu ar wahân ym mhob un o bum cynllun y Rhaglen LPfN yn ogystal â rôl OVW. Mae'r diagram yn dangos sut mae'r arian yn cael ei ddarparu i brosiectau, gan gynnwys rôl rheolwyr cynlluniau a staff cyflawni ym mhob cynllun, lle bo hynny'n berthnasol. Ar ben hynny, mae'n nodi'r prosiectau eu hunain a'r cysylltiadau ar y lefel hon â derbynwyr grantiau a sefydliadau partner i'w cyflawni, a sut mae'r prosiectau hyn yn ymgysylltu â phobl a chymunedau drwy gynnwys gwirfoddolwyr ac ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned drwy gamau gweithredu sydd wedi'u hariannu.

Disgrifiad o Ffigur AA.1: Siart llif o'r enw "Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2020-2025" sy'n dangos strwythur a llwybrau cyllido pob cynllun yn y rhaglen LPfN. Mae Llywodraeth Cymru ar frig y siart fel cyllidwr y rhaglen. O dan Lywodraeth Cymru, dyma'r sefydliadau sy'n arwain y cynlluniau: CGGC (Partneriaethau Natur Lleol a Chapasiti Arfordirol), Cadwch Gymru'n Daclus (Pecynnau Cymunedol), Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (Grantiau Cyfalaf a Chwalu Rhwystrau), ac Un Llais Cymru (cymorth i Gynghorau Tref a Chymuned). Mae'r saethau'n dangos llif yr arian gan y sefydliadau hyn. Mae'r saethau'n llifo i lawr o'r sefydliadau hyn i flychau gan dynnu sylw at weithgareddau a staff allweddol y cynllun, gan gynnwys Rhwydweithiau a Chydlynwyr LNP, staff KWT, staff Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chydlynydd LPfN (Un Llais Cymru). Yr haen nesaf i lawr wedyn yw'r gweithgaredd/cymorth sydd ar gael drwy bob un o'r cynlluniau i bobl a chymunedau:

- LNP: Cynlluniau Cyflawni, y Gronfa Her a phrosiectau a ariennir
- Pecynnau Cymunedol: pecynnau amrywiol
- Grantiau Cyfalaf Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol: Prosiectau £10,000 i £100,000 a phrosiectau £100,000 i £250,000
- Chwalu Rhwystrau: prosiectau a ariennir
- Cefnogaeth Cynghorau Tref a Chymuned: Ymgynghori a Hyfforddiant

Mae'r graffig hefyd yn dangos amrywiaeth y staff sy'n rhan o'r broses o roi'r rhaglen ar waith: staff Llywodraeth Cymru, rheolwyr cynlluniau, staff rhwydwaith (LNP), staff cyflawni, sefydliadau sy'n derbyn grantiau, sefydliadau partner sy'n cyflenwi, gwirfoddolwyr prosiectau ac, yn olaf, pobl a chymunedau.

**Ffigur AA.1: Strwythur rhaglen LPfN**



## Cynllun Partneriaethau Natur Lleol

Nod y cynllun Partneriaethau Natur Lleol yw adeiladu rhwydwaith adfer byd natur a fydd yn cynnwys pobl a chymunedau, busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, mewn camau gweithredu ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru iach, gydnerth a chyforiog o natur. Mae'n cynnwys partneriaethau sy'n cynrychioli pob un o'r awdurdodau lleol a'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru (25 i gyd). Mae aelodaeth pob LNP yn amrywio ond mae'n cynnwys amrywiol sefydliadau amgylcheddol, grwpiau cymunedol, busnesau yn y sector preifat ac unigolion.

Mae gan bob LNP aelod o staff sy'n cydlynu'r bartneriaeth a'r cronfeydd (Cydlynydd LNP). Mae pob LNP yn cael yr un faint o gyllid refeniw gan y rhaglen LPfN i gyfrannu at gostau'r swyddog hwnnw. Mae'r rolau hyn hefyd yn aml yn cael eu hariannu'n rhannol gan yr awdurdod lleol dan sylw i gyflawni rôl ehangach.

Dyrennir cyllid cyfalaf i'r LNP gan Lywodraeth Cymru drwy fformiwla a gyhoeddir yn flynyddol (gweler: Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol 2024 i 2025) yn seiliedig ar niferoedd poblogaeth a 'chlystyru' poblogaethau (hy nifer y trefi, pentrefi a dinasoedd yn y sir). Mae defnyddio'r dull hwn yn sicrhau bod y cynllun yn rhoi sylw i 'Gymru gyfan'. Mae LNP Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael yr un faint o gyllid cyfalaf gan mai'r LNP Awdurdod Lleol ddyrannodd y swm lleiaf o gyllid drwy'r fformiwla flynyddol. Mae'r LNP yn defnyddio'r cyllid cyfalaf i roi 'Cynllun Cyflawni' ar waith sy'n cynnwys sawl prosiect. Hefyd, ceir 'Cronfa Her' ar wahân (a ariennir hefyd gan gyfalaf) ar gyfer prosiectau a chynlluniau peilot cydweithredol neu arloesol, sy'n broses grant cystadleuol blynyddol ac mae ar gael i'r Partneriaethau Natur Lleol.

Darperir cyllid refeniw ychwanegol hefyd i gefnogi'r Partneriaethau Natur Lleol i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Adran 6, fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio hefyd i weithio at nod bioamrywiaeth '30x30' sy'n ceisio gwarchod o leiaf 30% o ardaloedd y môr, dŵr croyw a thir ar gyfer byd natur erbyn 2030. Mae nod bioamrywiaeth '30x30' yn gynllun byd-eang sy'n ceisio gwarchod 30% o ardaloedd môr a thir y Ddaear erbyn 2030. Mae'r targed hwn yn rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (GBF), y cytunwyd arno yn Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) ym mis Rhagfyr 2022.

Mae gan bob partneriaeth y pŵer i wneud penderfyniadau gweithredol dros ei chronfa gyllid ei hun a'r hyn mae am ei gyflawni. Rôl CGGC yw:

- rheoli proses y panel sy'n cymeradwyo cynlluniau cyflawni'r Partneriaethau Natur Lleol ochr yn ochr â cheisiadau ac asesiadau'r gronfa her,
- hwyluso'r gwaith o gyflawni'r cynllun, gan gynnwys rheoli hawliadau, diwydrwydd dyladwy, talu, ac adrodd
- a darparu data monitro a hawliadau i Lywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd adrodd a rheoli rheolaidd.

Mae hefyd yn bwysig nodi y gall Partneriaethau Natur Lleol ddod o hyd i gyllid i weithredu prosiectau o ffynonellau ar wahân i'r rhaglen LPfN.

## Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol

Cafodd y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol ei gyflwyno yn 2023, a'i fwriad yw meithrin gallu rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol, gan gydnabod pwysigrwydd ardaloedd arfordirol ar gyfer adfer natur a llesiant cymunedol.

Rheolir y cynllun ochr yn ochr â chynllun LNP gan CGGC, a'i nod oedd mynd i'r afael â'r bylchau mewn cyllid ar ôl ymadael â'r UE drwy ddod â'r partneriaid yn ardaloedd arfordirol Cymru at ei gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, adfer cynefinoedd naturiol, a chryfhau rhwydweithiau lleol ar gyfer gweithredu cynaliadwy. Roedd y cynllun hefyd yn ceisio cryfhau'r cysylltiad rhwng cymunedau arfordirol lleol a byd natur, gan helpu pobl i ddeall y camau y gallan nhw eu cymryd i wneud gwahaniaeth.

Roedd gan y cynllun gyllideb flynyddol o £500,000 ar gael ar gyfer prosiectau o bum mis neu fwy, gydag isafswm gwerth o £20,000. Roedd yn rhaid i'r prosiectau a ariennir gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025. Gwnaed ceisiadau drwy'r Partneriaethau Natur Lleol, gyda phartneriaid yn gallu gwneud cais drwy weithio gyda'r Cydlynydd LNP perthnasol. Roedd y Partneriaethau yn gweithredu fel 'ymgeiswyr arweiniol' am y cyllid, gan gydlynu ymdrechion rhwng gwahanol randdeiliaid.

## Cronfa Grantiau Cyfalaf

Nod Cronfa Grantiau Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth oedd galluogi cymunedau i adfer a gwella byd natur yng Nghymru. Roedd yn darparu grantiau cyfalaf o hyd at £250,000, gan dargedu cymunedau yn y 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi prosiectau tyfu bwyd yn y gymuned a sefydliadau neu grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig amrywiol. Roedd yn ofynnol i brosiectau allu cynnal yr ased yn y tymor hir, ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu cynllun cynnal a chadw fel dogfen ategol ar gyfer unrhyw gais am gyllid. Nid oedd modd defnyddio'r cyllid ar gyfer costau rhedeg sefydliadau nac ar gyfer costau cynnal a chadw arferol asedau presennol. Cafodd y cynllun ei gau i geisiadau ym mis Gorffennaf 2024 ac roedd yn dal ar gau adeg ysgrifennu'r adroddiad ym mis Hydref 2025.

## Y Cynllun Chwalu Rhwystrau

Yr ail gynllun LPfN a ddarparwyd gan y Gronfa Dreftadaeth oedd y Cynllun Chwalu Rhwystrau. Roedd yn cynnig grantiau refeniw-yn-unig o rhwng £30,000 a £100,000. Nod y prosiectau hyn oedd cynnwys cymunedau mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â natur, gan ganolbwyntio ar gynnwys lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, Sipsiwn, ac unigolion a grwpiau o ardaloedd difreintiedig. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Hydref 2025, roedd y cynllun wedi cau i geisiadau ers mis Mawrth 2023.

Fel grant refeniw, gellid defnyddio'r cyllid ar gyfer:

- Costau staffio
- Adennill costau'n llawn i'r sefydliad
- Gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd
- Digwyddiadau hyfforddi/gwybodaeth i aelodau'r gymuned
- Digwyddiadau blasu i alluogi cymunedau i brofi manteision byd natur

- Eitemau i'w defnyddio mewn digwyddiadau / 'mynd yn ôl adref' fel hadau, eginblanhigion, compost heb fawn, menig, potiau bioddiraddadwy, offer bach
- Ymweliadau â mannau lleol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer byd natur yn yr ardal i ddangos beth sy'n bosibl ac i rannu syniadau/arbenigedd
- Treuliau gwirfoddolwyr gan gynnwys costau teithio, gofal plant, bwyd a diod
- Cynllunio prosiectau natur posibl yn yr ardal.

Fodd bynnag, ni ellid defnyddio'r arian i brynu eitemau cyfalaf fel gliniaduron a ffonau.

Ni ellid defnyddio'r Cynllun Chwalu Rhwystrau i ariannu'r gwaith o ddatblygu 'lle lleol i natur'; gellid gwneud hyn drwy elfennau eraill y rhaglen LPfN.

## Cynllun Pecynnau Cymunedol

Mae'r cynllun Pecynnau Cymunedol yn cael ei ddarparu gan Cadwch Gymru'n Daclus (KWT), ac mae'n darparu pecynnau y talwyd amdanynt ymlaen llaw i grwpiau cymunedol i gyflawni prosiectau. Mae'r pecynnau'n amrywio o ran maint i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau garddio bach yn ogystal â pherllannau a chamau gweithredu ar raddfa fwy. Mae pob pecyn yn cynnwys planhigion brodorol, offer ac adnoddau, ac mae staff KWT yn delio ag archebion a danfoniadau, yn ogystal â chefnogi grwpiau i sefydlu eu gardd newydd. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd â chyfranogiad cymunedol cryf, a threfi, dinasoedd, ardaloedd difreintiedig, a mannau heb fawr ddim mynediad at fyd natur, os o gwbl.

- Mae'r Pecynnau Cychwynnol ar gyfer prosiectau garddio bach. Gall unrhyw grŵp cymunedol neu wirfoddol wneud cais heb fod angen iddyn nhw gael cyfrif banc na chyfansoddiad. Mae dau Becyn Cychwynnol penodol ar gael: Gardd Tyfu Bwyd neu Gardd Bywyd Gwyllt. Mae pob un yn cynnwys popeth angenrheidiol – planhigion brodorol, offer a deunyddiau, canllawiau ar sut mae sefydlu'r ardd, ac ychydig o amser gan swyddog KWT i ddarparu cyngor a chymorth ychwanegol.
- Mae'r Pecynnau datblygu ar gyfer sefydliadau cymunedol sy'n dymuno creu prosiectau ar raddfa fwy. Gall ystod o sefydliadau cymunedol wneud cais – o fentrau cymdeithasol, grwpiau ieuenctid, a grwpiau ffydd i elusennau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ddau becyn Datblygu (Gardd Tyfu Bwyd neu Ardd Bywyd Gwyllt hefyd) wedi cael eu cynllunio i roi hwb i fyd natur, yn ogystal â gwella iechyd a llesiant pobl hefyd. Y nod yw dod â chymunedau ynghyd, annog pobl i wirfoddoli yn yr awyr agored, a chreu mannau gwyrdd i bawb eu mwynhau. Mae'r holl becynnau'n cynnwys hyfforddiant, cyngor, a chymorth ymarferol i osod y mannau newydd, yn ogystal â'r offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i ofalu amdanynt dros y tymor hir.
- Mae dau fath o Becyn Perllan ar gael: gall sefydliadau a grwpiau cymunedol wneud cais am Becynnau Perllannau Cymunedol, a gall ysgolion wneud cais am Becynnau Perllan Ysgolion. Mae'r pecynnau'n cynnwys yr un eitemau, ond mae'r gefnogaeth y mae cymunedau'n ei chael gan KWT yn wahanol, yn dibynnu a yw'r sawl sy'n gwneud cais yn sefydliad cymunedol neu'n ysgol.

- Cyflwynwyd Pecynnau Enfawr yn 2024, ac maen nhw wedi'u dylunio ar gyfer sefydliadau cymunedol sydd ag ardal enfawr o le gwag, sydd wedi'i esgeuluso (tua maint dau gwrt tenis a hanner) sydd ar gael i'w drawsnewid yn ardd gymunedol ffyniannus, ynghyd â pherllan, ardal tyfu bwyd, a phwll. Bydd swyddog penodol KWT yn helpu ymgeiswyr i gynllunio a chreu eu gardd enfawr, ond rhaid i gymunedau ymrwymo i ofalu amdani am flynyddoedd i ddod. Caiff ceisiadau eu hasesu gan banel o arbenigwyr, a rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd â chyfranogiad cymunedol cryf, y rheini mewn trefi, dinasoedd, ardaloedd difreintiedig, a mannau heb fawr ddim mynediad at fyd natur, os o gwbl.
- Cyflwynwyd Pecynnau Adlenwi yn 2024 hefyd ar gyfer gerddi Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sy'n bodoli'n barod. Mae'r Pecynnau Adlenwi ar gael yn rhad ac am ddim, ac maent yn cynnwys eitemau sydd eu hangen i wella mannau gwyrdd a gefnogwyd yn flaenorol. Mae ymgeiswyr hefyd yn cael cyngor arbenigol gan swyddogion KWT i helpu i osod yr eitemau ychwanegol a thrafod ffyrdd eraill o sicrhau bod yr ardd yn ffynnu am flynyddoedd i ddod.

# Atodiad B: Rhagor o fanylion am y dull Gwerthusiad Realaidd

Mae Gwerthuso Realaidd, a fynegwyd gyntaf gan Pawson a Tilley (1997), yn ddull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth ac mae'n gofyn: 'Beth sy'n gweithio, i bwy, ym mha gyd-destunau, a sut?' (Pawson a Tilley, 1997; Westhorp ac eraill, 2011). Yn hytrach na dim ond mesur a yw ymyriad yn gweithio, mae dull realaidd yn ceisio egluro sut mae canlyniadau'n cael eu cynhyrchu gan fecanweithiau sylfaenol mewn cyd-destunau penodol (Punton ac eraill, 2016). Pan nad yw 'mecanweithiau achosol' ymyriad yn cael eu deall, gall hyn arwain at sefyllfaoedd lle mae'r ymyriad hwnnw (neu'r rhaglen honno) yn cael ei 'gyflwyno' i ardaloedd eraill neu grwpiau eraill o bobl, ond nad yw'r effeithiau manteisiol yn cael eu gwireddu. Heb ddealltwriaeth o'r mecanweithiau achosol, yn aml nid yw'r rhesymau dros y methiant yn amlwg. Mae'r dull gwerthuso realaidd yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Mae cyflwyniad pellach i'r dull ar gael yma.

Mewn gwerthusiad realaidd, ystyrir bod ymyriadau (yn yr achos hwn, y cynlluniau LPfN a'r prosiectau/gweithgareddau y maent yn eu hariannu) yn creu cyfleoedd y gall pobl (neu gymuned, busnes ac ati) ddewis gweithredu arnynt os ydynt yn gallu gwneud hynny. Cysyniad sylfaenol yw nad yr ymyriad ei hun sy'n achosi'r canlyniad ond, yn hytrach, ymateb unigolyn i'r adnoddau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ymyriad. Mae'r gwerthusiad hwn wedi ceisio archwilio'r rhaglen LPfN o'r safbwynt hwnnw.

## Pwysigrwydd cyd-destun

Cysyniad allweddol mewn gwerthusiad realaidd yw nad yr ymyriad ei hun sy'n achosi'r canlyniad ond, yn hytrach, ymateb unigolyn i'r adnoddau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ymyriad. Mewn gwerthusiad realaidd, gelwir y cyfuniad hwnnw o adnoddau rhaglen ac ymateb unigolyn iddynt yn 'fecanwaith', a'r mecanwaith hwn sy'n pennu'r canlyniad. Yn bwysig, mae gwerthusiad realaidd hefyd o'r farn y bydd unigolyn yn debygol o ymateb yn wahanol i ymyriad mewn gwahanol amgylchiadau (neu 'gyd-destun'). Y rhagdybiaeth yw nad oes 'dim byd yn gweithio ym mhobman nac i bawb'. Mae deall cyd-destun yn helpu i egluro pam mae canlyniadau'n wahanol ar draws lleoliadau ac yn arwain addasiadau er mwyn cael canlyniadau gwell (gweler: RAMESES_II_Context.pdf)

Yn ei hanfod, mae ymyriadau'n creu cyfleoedd y gall pobl ddewis gweithredu arnynt. Felly, mae llwyddiant ymyriad yn dibynnu ar resymeg yr unigolyn a sut mae ei resymeg yn newid yn dibynnu ar ei amgylchiadau a ffactorau allanol. Y fformiwla ganolog yw bod canlyniadau'n codi pan fydd 'mecanweithiau' penodol yn cael eu sbarduno mewn 'cyd-destunau' penodol:

Cyd-destun + Mecanwaith = Canlyniad (CMO)

## Datganiadau esboniadol:

Mae datganiadau esboniadol (y cyfeirir atynt hefyd fel ‘datganiadau damcaniaethol’ mewn llenyddiaeth gwerthusiad realaidd) yn esboniad cryno o sut y disgwylir i ymyriad/rhaglen arwain at ganlyniadau penodol a pham, yn seiliedig ar dybiaethau sylfaenol am gyd-destun, mecanweithiau a newid. Yn yr atodiad sy'n dilyn, mae datganiadau esboniadol ar gyfer y rhaglen LPfN yn cael eu nodi gan ddefnyddio'r fframwaith 'CMMO' ac yn y dull 'os...yna...oherwydd' sy'n haws ei ddefnyddio ac sy'n cael ei ddefnyddio ym mhrif gorff yr adroddiad.

Mae fframwaith CMMO (a ddatblygwyd gyntaf yn Dalkin ac eraill, 2015) yn dadgyfuno'r "Mecanwaith" traddodiadol yn y model CMO yn “Fecanwaith (Adnoddau)” a “Mecanwaith (Rhesymu)”. Mae rhannu'r mecanwaith yn ddwy ran yn helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng (1) yr hyn y mae'r rhaglen yn ei ddarparu (yr adnodd); a (2) sut mae cyfranogwyr yn ymateb iddo (y rhesymeg). Mae'r eglurder hwn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ystyried ymyriadau cymhleth fel LPfN lle gallai'r un adnodd sbarduno rhesymu gwahanol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r fersiynau hynny o'r datganiadau wedi'u cynnwys yma gan eu bod yn rhoi mwy o fanylion na'r dull “os...yna...oherwydd”.

Mae'r dull haws ei ddefnyddio “os...yna...oherwydd” wedi'i fabwysiadu'n eang mewn ymchwil realaidd fel ffordd hawdd o fynegi a phrofi damcaniaethau rhaglenni:

- Os: Mae'r rhan hon yn disgrifio'r sefyllfa neu'r ymyriad sy'n cael ei gyflwyno, gan gynnwys y lleoliad a'r hyn y mae'r rhaglen yn ei ddarparu (Cyd-destun + Mecanwaith - Adnodd)
- Yna: Dyma'r newid disgwyliedig neu'r canlyniad sy'n dilyn o'r ymyriad (Canlyniad)
- Oherwydd: Mae hyn yn esbonio pam y disgwylir y canlyniad — y rhesymu, y cymhelliant neu'r ymateb a sbardunir gan gyfranogwyr (Mecanwaith - Rhesymu)

Mae cysylltiad agos rhwng y dull hwn a Shearn ac eraill, 2018.

# Atodiad C: Datganiadau esboniadol:

Isod, mae set o ddatganiadau esboniadol a ddatblygwyd fel rhan o'r broses werthuso. Ar gyfer pob un, rhoddir y canlynol:

1. fersiwn CMMO (Cyd-destun – Mecanwaith (Adnodd) – Mecanwaith (Rhesymu) – Canlyniad), a
2. fersiwn Cymraeg clir yn cynnwys os–yna–oherwydd.

## Deall cymhellion cyfranogwyr a darparu'r cyfleoedd cywir

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw prosiectau'n darparu cyfleoedd sy'n cyd-fynd â chymhellion cyffredin (gwella'r ardal leol, bod yn yr awyr agored, rhoi'n ôl), yna mae cyfranogiad a chanlyniadau gwerthfawr yn fwy tebygol, oherwydd bod pobl yn ystyried bod y cynnig yn ystyrlon ac yn werth eu hamser.

### CMMO

Cyd-destun (C): Mae prosiectau'n gweithredu mewn cymunedau lle mae gan lawer o gyfranogwyr agwedd gadarnhaol at fyd natur yn barod, ac maent eisoes yn cael eu cymell drwy wella eu hardal leol, mwynhau amser yn yr awyr agored, a rhoi'n ôl i'r gymuned.

Mecanwaith (Adnodd) (M-R): Mae prosiectau'n cynnig cyfleoedd sy'n cyd-fynd â'r cymhellion hyn (ee gwelliannau lleol ymarferol, gweithgareddau awyr agored, gwirfoddoli).

Mecanwaith (Rhesymu) (M-Re): Mae cyfranogwyr yn cydnabod cysylltiad agos rhwng yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn y mae'r prosiect yn ei gynnig, maent yn teimlo bod eu cyfraniadau'n ystyrlon, ac yn dewis ymgysylltu.

Canlyniad (O): Mae safleoedd newydd yn cael eu sefydlu a'u datblygu oherwydd cyfranogiad uwch gyda chanlyniadau gwerthfawr fel ymgysylltu'n well â mannau lleol, gwell llesiant, a chyflawni mwy o gysylltiadau cymdeithasol.

## Ymgysylltu â'r cyfranogwyr 'cywir' a chaniatáu i brosiectau ddatblygu

### Os–Yna–Oherwydd

Os mai'r amcan yw newid agweddau ac ymddygiadau pobl sydd â safbwyntiau difater neu negyddol at fyd natur ar hyn o bryd, yna rhaid blaenoriaethu ymgysylltu ag unigolion yn y grŵp hwnnw, oherwydd fel arall, er bod gan gyfranogwyr gymhelliant cadarnhaol, maent eisoes yn tueddu i arddel safbwyntiau o blaid natur, gan gyfyngu ar y posibilrwydd o newid yn y garfan honno.

### CMMO

Cyd-destun (C): Y nod yw newid agweddau ac ymddygiad pobl sy'n ddifater neu'n negyddol at natur ar hyn o bryd.

Mecanwaith (Adnodd) (M-R): Mae ymdrechion ymgysylltu yn blaenoriaethu cyrraedd a chynnwys unigolion o'r grŵp hwn (ee allgymorth wedi'i dargedu, gweithgareddau wedi'u teilwra).

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae'r unigolion hyn yn credu bod y prosiect yn berthnasol iddynt, yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi, ac yn dechrau ailystyried eu hagwedd a'u hymddygiad at fyd natur.

Canlyniad (O): Mwy o botensial i newid agwedd ac ymddygiad y grŵp targed, gan arwain at fwy o safbwyntiau a gweithredoedd o blaid natur ymysg unigolion a oedd yn arfer bod yn ddifater neu'n negyddol at natur.

## Os–Yna–Oherwydd

Os yw camau cynnar y prosiect yn blaenoriaethu recriwtio cyfranogwyr sydd â'r sgiliau a'r argaeledd i gwblhau gwaith ffisegol safle (hyd yn oed os oes ganddynt safbwyntiau cadarnhaol eisoes), yna mae mannau gwyrdd/naturiol newydd neu well yn fwy tebygol o gael eu darparu'n effeithiol, oherwydd bod tasgau cychwynnol yn dibynnu ar lafur ymarferol ac ymdrech sy'n canolbwyntio ar y safle.

## CMMO

Cyd-destun (C): Mae camau cynnar y prosiect yn gofyn am waith ffisegol ar y safle sy'n dibynnu ar lafur ymarferol ac ymdrech sy'n canolbwyntio ar y safle.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae prosiectau'n blaenoriaethu recriwtio cyfranogwyr sydd â'r sgiliau a'r argaeledd i gwblhau'r tasgau hyn (hyd yn oed os oes ganddynt safbwyntiau cadarnhaol eisoes).

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr medrus yn cydnabod eu bod yn gallu cyfrannu'n effeithiol, yn teimlo bod eu cyfraniad yn hanfodol ar gyfer cynnydd, ac yn ymrwymo i waith safle.

Canlyniad (O): Darparu mannau gwyrdd/naturiol newydd neu well yn effeithiol ac yn unol â'r amserlen.

## Os–Yna–Oherwydd

Os bydd camau dilynol yn symud allgymorth yn fwriadol at grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu sydd wedi ymddieithrio, yna bydd defnydd, mynediad cyfartal ac effaith barhaus ar y gymuned yn cynyddu, oherwydd mae ymgysylltu wedi'i deilwra yn mynd i'r afael â rhwystrau ac yn gwahodd defnyddwyr newydd pan fydd safle'n barod.

## CMMO

Cyd-destun (C): Nod camau diweddarach y prosiect yw ehangu defnydd a mynediad cyfartal pan fydd safleoedd yn barod.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae allgymorth yn symud yn fwriadol at grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu sydd wedi ymddieithrio drwy ymgysylltu wedi'i deilwra a lleihau rhwystrau.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae'r grwpiau hyn o'r farn bod y prosiect yn hygyrch ac yn berthnasol, yn teimlo eu bod yn cael croeso, ac yn dewis defnyddio'r gofod a chael budd ohono.

Canlyniad (O): Mwy o ddefnydd, mynediad cyfartal, ac effaith barhaus ar y gymuned.

### Os–Yna–Oherwydd

Os bydd prosiectau'n newid y gynulleidfa darged yn fwriadol dros amser—o adeiladwyr safle i ddefnyddwyr nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol—yna bydd y gwaith o greu safleoedd ac ymgysylltu'n deg yn gwella, oherwydd bydd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr yn cael eu hysgogi gan wahanol gyfleoedd ar wahanol gamau.

### CMMO

Cyd-destun (C): Mae prosiectau'n gofyn am greu safleoedd ac ymgysylltu'n deg er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Targedu newidiadau dros amser—o adeiladwyr safleoedd mewn camau cynnar i ddefnyddwyr nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn ddiweddarach—gan greu gwahanol gyfleoedd ar wahanol gamau.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae pob grŵp yn gweld cysylltiad clir rhwng eu diddordebau a chynigion y prosiect sy'n datblygu, yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ac yn ymgysylltu'n unol â hynny.

Canlyniad (O): Creu safleoedd a gwella ymgysylltiad teg, gan arwain at fannau swyddogaethol a manteision cymunedol cynhwysol.

## Dull hyblyg, wedi'i deilwra

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw prosiectau LPfN yn cael yr hyblygrwydd i deilwra gweithgareddau i anghenion lleol a nodweddion cyfranogwyr, yna maent yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau perthnasol a chadarnhaol, oherwydd mae'r gallu i addasu yn sicrhau bod ymyriadau'n cyd-fynd â blaenoriaethau, rhwystrau a chyfleoedd lleol, gan gynyddu ymgysylltiad ac effeithiolrwydd.

### CMMO

Cyd-destun (C): Mae prosiectau LPfN yn gweithredu mewn cymunedau amrywiol gyda blaenoriaethau, rhwystrau a chyfleoedd amrywiol.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Rhoddir hyblygrwydd i brosiectau deilwra gweithgareddau i anghenion lleol a nodweddion cyfranogwyr.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr yn gweld gweithgareddau fel rhai perthnasol ac ystyrlon, yn teimlo bod eu hamgylchiadau'n cael eu deall, ac yn fwy parod i ymgysylltu.

Canlyniad (O): Cyflawnir canlyniadau perthnasol a chadarnhaol, gan gynnwys mwy o ymgysylltu ac effeithiolrwydd.

## Os–Yna–Oherwydd

Os gall cymunedau ac ymgeiswyr ddylunio prosiectau sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a'u hanghenion eu hunain, yna bydd amrywiaeth ehangach o weithgareddau a lleoliadau yn dod i'r amlwg, oherwydd mae dull anghyfarwyddol sy'n cael ei arwain gan y gymuned yn annog arloesi, cydweithio ac addasu i gyd-destunau lleol.

## CMMO

Cyd-destun (C): Mae gan gymunedau ac ymgeiswyr amgylchiadau ac anghenion unigryw sy'n dylanwadu ar ddyluniad prosiect.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Gall cymunedau ac ymgeiswyr ddylunio prosiectau sy'n cyd-fynd â'u cyd-destunau drwy ddull gweithredu anghyfarwyddol sy'n cael ei arwain gan y gymuned.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr lleol yn teimlo eu bod wedi'u grymuso, yn arloesi ac yn cydweithio, gan weld y prosiect fel eu prosiect nhw a'i addasu i realiti lleol.

Canlyniad (O): Mae amrywiaeth ehangach o weithgareddau a lleoliadau yn dod i'r amlwg, gan adlewyrchu amrywiaeth a blaenoriaethau lleol.

## Os–Yna–Oherwydd

Os caniateir i brosiectau ddatblygu dros amser mewn ymateb i adborth gan gyfranogwyr ac amgylchiadau lleol sy'n newid, yna mae ymgysylltu ac effaith yn fwy tebygol o gael eu cynnal, oherwydd gall prosiectau sy'n datblygu barhau i fod yn berthnasol a pharhau i ddiwallu anghenion eu cymunedau.

## CMMO

Cyd-destun (C): Mae amgylchiadau lleol ac anghenion cyfranogwyr yn newid dros amser, sy'n galw am berthnasedd parhaus.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Caniateir i brosiectau ddatblygu mewn ymateb i adborth gan gyfranogwyr ac amodau sy'n newid.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr o'r farn bod y prosiect yn ymatebol ac yn werthfawr, maent yn parhau i gymryd rhan, ac yn parhau i gyfrannu.

Canlyniad (O): Cynhelir yr ymgysylltu a'r effaith dros amser, gan gynnal perthnasedd a budd i'r gymuned.

## Cymysgedd o weithgareddau a galluogi cyfranogwyr i symud ymlaen

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw prosiectau'n creu cyfleoedd cynhwysol a rheolaidd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol, yna mae llesiant ac ymgysylltu parhaus yn gwella, oherwydd bod ymdeimlad o berthyn a phwrpas cyffredin yn gwneud cyfranogiad yn werth chweil ac yn arferol.

### CMMO

Cyd-destun (C): Nod y prosiectau yw meithrin llesiant ac ymgysylltiad parhaus ymysg cyfranogwyr.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Prosiectau yn creu cyfleoedd cynhwysol a rheolaidd ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol (ee gweithgareddau grŵp, digwyddiadau cymunedol).

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr yn profi ymdeimlad o berthyn a chyd-bwrpas, gan wneud cyfranogi'n werth chweil ac yn arferol.

Canlyniad (O): Gwella llesiant a chynyddu ymgysylltiad parhaus.

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw gweithgareddau ymarferol yn cael eu paru â dysgu, yna mae cyfranogwyr yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau stiwardiaeth, oherwydd bod hyder, sgiliau ac ymdeimlad o gyfrifoldeb yn cael eu meithrin.

### CMMO

Cyd-destun (C): Mae prosiectau'n ceisio annog ymddygiad stiwardiaeth ochr yn ochr â gwaith safle ymarferol.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae gweithgareddau ymarferol yn cael eu paru â chyfleoedd dysgu (ee hyfforddiant sgiliau, addysg ecolegol).

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr yn magu hyder, sgiliau ac ymdeimlad o gyfrifoldeb, gan eu cymell i fabwysiadu ymddygiad stiwardiaeth.

Canlyniad (O): Mae cyfranogwyr yn fwy tebygol o ddatblygu a chynnal ymddygiad stiwardiaeth.

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw prosiectau'n darparu llwybrau dilyniant (ee o gynnal a chadw sylfaenol i rolau hyfforddi neu arwain achrededig), yna mae sgiliau, hyder a stiwardiaeth hirdymor yn cryfhau, oherwydd gall cyfranogwyr ddyfnhau eu cyfranogiad a gweld datblygiad personol.

### CMMO

Cyd-destun (C): Nod prosiectau yw meithrin gallu ac arweinyddiaeth hirdymor i stiwardio natur.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae prosiectau'n darparu llwybrau dilyniant (ee o waith cynnal a chadw sylfaenol i rolau hyfforddi neu arwain achrededig).

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr yn gweld cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, yn dyfnhau cyfranogiad, ac yn teimlo eu bod wedi rhoi o’u hamser i’r prosiect.

Canlyniad (O): Sgiliau, hyder a stiwardiaeth hirdymor yn cryfhau.

## Capasiti a chyd-destun lleol

### Os–Yna–Oherwydd

Os oes gan sefydliadau lleol yr wybodaeth, y sgiliau a'r rhwydweithiau i ymgysylltu â chynlluniau LPfN a gwneud cais am gymorth, yna mae prosiectau'n fwy tebygol o gael eu cyflawni a'u cynnal yn effeithiol dros amser, oherwydd bod capasiti sefydliadol yn galluogi grwpiau i gael gafael ar adnoddau, ysgogi gwirfoddolwyr, a chydweithio ag eraill.

### CMMO

Cyd-destun (C): Mae gan sefydliadau lleol yr wybodaeth, y sgiliau a'r rhwydweithiau i ymgysylltu â chynlluniau LPfN a gwneud cais am gymorth.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Gall sefydliadau gael gafael ar adnoddau, ysgogi gwirfoddolwyr, a chydweithio ag eraill yn effeithiol.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae mudiadau'n teimlo'n hyderus a’u bod yn gallu cyflawni prosiectau, gan eu gweld fel rhai gwerth chweil y gellir eu cyflawni.

Canlyniad (O): Mae prosiectau'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn cael eu cynnal dros amser.

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw cynlluniau LPfN yn darparu cymorth i feithrin gallu (fel hyfforddiant, adnoddau a chyfleoedd partneriaeth), yna mae sefydliadau lleol mewn gwell sefyllfa i gyflawni a chynnal prosiectau, oherwydd eu bod yn cael mynediad at offer, gwybodaeth a rhwydweithiau cydweithredol na fyddent ar gael fel arall.

### CMMO

Cyd-destun (C): Nod cynlluniau LPfN yw cryfhau cynaliadwyedd a darpariaeth leol.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae cynlluniau'n darparu cymorth i feithrin gallu (ee hyfforddiant, adnoddau, cyfleoedd partneriaeth).

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae sefydliadau'n teimlo eu bod wedi'u harfogi a'u grymuso, gan gydnabod bod offer a rhwydweithiau newydd yn galluogi llwyddiant.

Canlyniad (O): Mae sefydliadau lleol yn gallu cyflawni a chynnal prosiectau'n well.

### Os–Yna–Oherwydd

Os nad oes gan sefydliadau lleol y gallu i ymgysylltu â chynlluniau LPfN neu i nodi safleoedd addas, yna bydd llai o brosiectau'n cael eu rhoi ar waith yn yr ardaloedd hynny, oherwydd bod natur seiliedig ar alw'r rhaglen yn golygu mai dim ond pan fydd sefydliadau'n gallu cymhwyso a chyflawni y bydd gweithgarwch yn digwydd.

### CMMO

Cyd-destun (C): Nid oes gan sefydliadau lleol y gallu i ymgysylltu â chynlluniau LPfN na nodi safleoedd addas.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae strwythur rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y galw yn golygu mai dim ond pan fydd sefydliadau'n gallu gweithredu a chyflawni y bydd gweithgarwch yn digwydd.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae sefydliadau o'r farn nad yw cyfranogiad yn ymarferol, gan arwain at ymddieithrio ac anweithgarwch.

Canlyniad (O): Mae llai o brosiectau yn cael eu gweithredu yn yr ardaloedd hynny.

## Amserlenni a chynnal safleoedd, gweithgareddau a chanlyniadau

### Os–Yna–Oherwydd

Os oes gan brosiectau ddigon o amser a dilyniant, yna mae ymgysylltu'n dwysau ac mae ymddygiadau'n fwy tebygol o aros, oherwydd mae cyswllt dro ar ôl tro a chynnydd gweladwy yn gwreiddio arferion ac ymrwymiad.

### CMMO

Cyd-destun (C): Prosiectau’n ceisio gwreiddio ymddygiad a dyfnhau ymgysylltiad dros amser.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae gan brosiectau ddigon o amser a dilyniant, sy'n caniatáu cyswllt dro ar ôl tro a chynnydd gweladwy.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr yn gweld cynnydd, yn teimlo bod arferion yn ffurfio, ac yn ymrwymo'n gryfach oherwydd bod y prosiect yn teimlo'n sefydlog ac yn werth chweil.

Canlyniad (O): Mae ymgysylltu'n dwysau ac mae ymddygiadau'n fwy tebygol o aros.

### Os–Yna–Oherwydd

Os yw cymunedau’n gwneud gwelliannau pendant i fannau lleol a bod ganddynt rwydweithiau partneriaeth neu wirfoddolwyr cryf, yna mae manteision y prosiect yn fwy tebygol o gael eu cynnal, oherwydd mae'r cyfuniad o newid gweladwy a chymorth cymdeithasol yn sbarduno ymgysylltu a chynnal a chadw parhaus.

## CMMO

Cyd-destun (C): Mae cymunedau'n chwilio am fanteision parhaus o brosiectau natur lleol.

Mecanwaith (Adnodd) (M R): Mae prosiectau'n darparu gwelliannau pendant i fannau lleol ac yn meithrin rhwydweithiau cryf o wirfoddolwyr neu bartneriaethau.

Mecanwaith (Rhesymu) (M Re): Mae cyfranogwyr yn teimlo balchder mewn newid gweladwy ac yn cael eu cefnogi gan gysylltiadau cymdeithasol, gan gymell ymgysylltu a chynnal a chadw parhaus.

Canlyniad (O): Mae manteision y prosiect yn fwy tebygol o gael eu cynnal dros amser.